**Rhif: WG51387**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

## Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir

## Pympiau gwres o'r aer, gwefrwyr cerbydau trydan mewn mannau parcio oddi ar y stryd, safleoedd gwersylla dros dro, peiriannau rhoi arian am ailgylchu, datblygiadau gan ymgymerwyr statudol (trydan), tai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser; a newid i'r diffiniad o 'ddatblygiad mawr'.

Rhagfyr 2025

This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51387

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ... 3
2. Ymatebion ... 4
3. Cynodeb o'r Ymatebion ... 6
   - 3.1 Pumpiau gwres o'r aer ... 6
   - 3.2 Gwefru cerbydau trydan oddi ar y stryd ... 21
   - 3.3 Newid defnydd tir dros dro ar gyfer gwersylla ... 31
   - 3.4 Peiriannau rhoi arian am ailgylchu ... 38
   - 3.5 Datblygiad gan ymgymerwyr statudol – Trydan ... 43
   - 3.6 Safleoedd tai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser ... 51
   - 3.7 Diffiniad o 'ddatblygiad mawr' ... 63
   - 3.8 Digolledu am ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol ... 65
   - 3.9 Ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg ... 66
   - 3.10 Ystyriaethau cyffredinol ... 68

Atodiad A – Rhestr yr ymatebwyr ... 71

# 1. Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd y ddogfen ymgynghori ‘Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir’ ar 8 Ebrill 2025 ac yr oedd yn agored i ymatebion hyd 1 Gorffennaf 2025. Gosodwyd 49 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol i hwyluso ymateb.

1.2 Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a’r camau nesaf. Mae wedi’i rhannu’n ddwy adran bellach.

1.3 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb cyffredinol o’r ymgynghoriad ac yn rhoi manylion am sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o’r holl ymatebion a ddaeth i law. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Dadansoddiad ystadegol eang o’r safbwyntiau a fynegwyd ar bob cwestiwn (lle gellid tynnu ystadegau).
- Crynodeb o’r sylwadau a’r materion a godwyd o dan bob cwestiwn neu grŵp o gwestiynau.
- Ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn pob cwestiwn neu grŵp o gwestiynau.

1.5 Wrth ddadansoddi a chrynhoi’r ymateb i’r ymgynghoriad hwn, nid yw’r adroddiad hwn yn mynd i’r afael â’r canlynol:

- **Materion sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad:** Lle gwnaed sylwadau sy’n berthnasol i’r ymgynghoriad hwn, ond a wnaed mewn perthynas â materion y tu allan i gwmpas y cwestiwn, gwnaed ymdrechion i grynhoi o dan y cwestiwn cywir. Fodd bynnag, ni fydd sylwadau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried.
- **Sylwadau sy’n dehongli’r polisi arfaethedig a’r ddeddfwriaeth bresennol yn anghywir:** Mae ymatebion wedi dod i law sy’n gofyn am newidiadau i’r polisi, sydd naill ai’n adlewyrchu’r bwriadau a nodir yn y papur ymgynghori neu’n adlewyrchu’r ddeddfwriaeth bresennol sydd i aros yr un fath.

# 2. Ymatebion

2.1 Ar 8 Ebrill 2025, hysbyswyd drwy e-bost dros 300 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, am gyhoeddi'r ymgynghoriad. Tynnwyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a gedwir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sawl corff arall a fynegodd ddiddordeb. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.

2.2 Cynhyrchwyd 174 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn ogystal â dau ymateb hwyr. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Darllenwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac fe'u hystyriwyd fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

*Darparwyd ffurflen ymgynghori fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori ac ar wahân ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr aseinio eu hunain i un o chwe chategori eang. Mae*

2.3 Tabl 2.1 isod yn dangos dadansoddiad o'r ymatebwyr.

| **Categori** | **Nifer** | **% o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 36 | 20% |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 11 | 6% |
| Awdurdod cynllunio lleol | 15 | 9% |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 83 | 47% |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 21 | 12% |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 10 | 6% |
| **Cyfanswm terfynol** | **176** | **100%** |

*Tabl 2.1: Dadansoddiad o'r ymatebwyr*

2.4 Roedd cwestiynau ymgynghori 1 i 46 yn gofyn cwestiynau polisi penodol yn ymwneud â'r gwahanol agweddau ar hawliau datblygu a ganiateir sy'n cael eu hystyried. Roedd y cwestiynau'n gofyn am ymatebion cadarnhaol, negyddol, neu 'ddim yn gwybod'. Roedd y cwestiynau ymgynghori hyn hefyd yn rhoi'r opsiwn i ymhelaethu ar yr atebion. Cafodd y cwestiynau ymgynghori eu grwpio yn adrannau, yn ôl pob pwnc hawl datblygu a ganiateir.

2.5 Roedd cwestiynau ymgynghori 47 a 48 yn ymdrin yn benodol â'r effeithiau posibl y byddai'r gwelliannau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg.

2.6 Oherwydd y cymysgedd o gwestiynau a ofynnwyd, cydnabuwyd y byddai llawer o ymatebwyr yn cwblhau'r adrannau hynny a fyddai'n berthnasol neu o ddiddordeb iddynt yn unig. O ganlyniad, lle nad oedd ymatebwyr wedi ymateb i gwestiynau o gwbl, cofnodwyd y rhain fel 'heb ateb'. Nid yw'r wybodaeth hon yn rhan o'r dadansoddiad ystadegol. Lle nodwyd 'ddim yn gwybod', ystyriwyd yr ymatebion hyn ac mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn rhan o'r dadansoddiad ystadegol ar gyfer pob cwestiwn. Lle rhoddwyd sylwadau gan ymatebwyr a'u bod yn glir eu

barn, ond heb nodi ateb penodol, neilltuwyd naill ai ateb cadarnhaol, ateb negyddol, neu ‘ddim yn gwybod’ i’r ymatebion hyn. Lle bo angen, talgrynnwyd data ystadegol i’r rhif agosaf, felly mewn rhai achosion efallai na fydd y ganran yn cyfateb i 100%. Mae Adran 3 o’r adroddiad hwn wedi’i rhannu’n naw thema ymgynghori pwrpasol.

2.7 Ceir rhestr lawn o ymatebwyr yn Atodiad A. Lle mae ymatebwyr wedi gofyn am gael eu manylion wedi eu hatal yn benodol, byddant yn cael eu trin fel ‘dienw’ o dan y categori, yn ogystal ag unigolion preifat, lle bydd pob un ohonynt yn cael eu trin fel ‘dienw’ er mwyn cydymffurfio â’r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

# 3. Crynodeb o'r ymatebion

## 3.1 Pympiau gwres o'r aer

**Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno y dylai amod G.3(a), sy'n mynnu bod pwmp gwres o'r aer yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwresogi yn unig, gael ei ddileu er mwyn gallu gosod pympiau gwres aer-i-aer hefyd? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 19 | 2 | 8 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 5 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 14 | 0 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 51 | 3 | 11 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 14 | 0 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **106** | **5** | **25** |
| **Canran** | **78** | **4** | **18** |

Y prif themâu

3.1.1 Y brif thema mewn ymateb i gwestiwn 1:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon â'r cynnig i alluogi gosod pympiau gwres aer-i-aer.

Trosolwg

3.1.2 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 78% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys tynnu sylw at fuddion fel y canlynol:

- Costeffeithiolrwydd / fforddiadwyedd.
- Addasrwydd ar gyfer cartrefi llai neu gartrefi hŷn.
- Mwy o ddewis i ddefnyddwyr i gyd-fynd â gwahanol eiddo.
- Y gallu i ddarparu oeri yn ystod misoedd cynhesach.
- Buddion o ran iechyd.
- Gostyngiad yn y rhwystrau rheoleiddiol i fabwysiadu technolegau gwresogi carbon isel.

3.1.3 Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen am hyblygrwydd i hyrwyddo ehangu datrysiadau gwresogi carbon isel a chefnogi nodau datgarboneiddio yng Nghymru. Ystyrir bod cyd-fynd â newidiadau tebyg yn Lloegr o fudd i gwsmeriaid ac yn helpu gosodwyr sy'n gweithio ar draws y ffin.

3.1.4 Codwyd rhai pryderon ynghylch yr angen am ddata ychwanegol ar effeithiau amgylcheddol, lefelau sŵn, a chynnydd posibl yn y galw am drydan oherwydd oeri. Awgrymwyd y dylai unrhyw newidiadau rheoleiddiol gyd-fynd â chanllawiau technegol pellach a rheolaethau sŵn i sicrhau bod y buddion yn cael eu cydbwyso yn erbyn yr anfanteision posibl.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

3.1.5 Mae mwyafrif yr ymatebion yn dangos cefnogaeth gref i'r cynnig i ddileu amod G.3(a). Rydym yn ystyried y bydd buddion posibl y cynnig hwn yn gwella'r dewis ar gyfer defnyddwyr ac yn eu hannog i fabwysiadu technolegau carbon isel ar aelwydydd ledled Cymru.

3.1.6 Bydd angen i bob pwmp gwres o'r aer a osodir o dan hawliau datblygu a ganiateir gydymffurfio â safonau'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (MCS) 020(a), a bydd unrhyw gyfyngiadau eraill megis cyfaint yr uned, nifer, lleoliad, dyluniad ac ystyriaeth o ardaloedd sensitif ac ati hefyd yn berthnasol.

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n mynnu bod pwmp gwres o'r aer yn cael ei osod 3 metr oddi wrth ffin yr eiddo? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 21 | 1 | 7 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 5 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 13 | 0 | 2 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 46 | 7 | 12 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 14 | 0 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 4 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **103** | **9** | **24** |
| **Canran** | **76** | **7** | **18** |

Y prif themâu

3.1.7 Y brif thema mewn ymateb i gwestiwn 2:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gael gwared ar y cyfyngiad sy'n mynnu bod pwmp gwres o'r aer yn cael ei osod 3 metr oddi wrth ffin yr eiddo.

Trosolwg

3.1.8 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 76% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Gwelliannau technolegol sydd wedi arwain at lefelau sŵn is.
- Yr angen am gysondeb o ran polisi ledled y DU.
- Buddion ar gyfer datgarboneiddio ac ecwiti cymdeithasol.
- Pwysigrwydd cynnal mesurau cadarn ar gyfer rheoli sŵn.
- Hanfodol i Gymru gyrraedd ei thargedau sero net.
- Angen cynnal rhai rheolaethau mewn lleoliadau sensitif fel ardaloedd cadwraeth neu adeiladau rhestredig i warchod amwynder gweledol ac amgylcheddol.
- Mae asesiad sŵn MCS 020 yn safon briodol i reoleiddio pympiau gwres o'r aer.
- Angen am fecanweithiau gorfodi clir i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gymdogion a chymunedau.

3.1.9 Tynnodd nifer o ymatebion sylw at y ffaith bod y rheol 3 metr yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd sydd â lle awyr agored cyfyngedig, lle gall fod yn anodd cydymffurfio â'r rheol. Ystyrir y byddai cael gwared arno yn ffordd o alluogi mwy o osodiadau gwresogi carbon isel mewn mwy o eiddo ledled Cymru. Y pryder mwyaf cyffredin gan ymatebwyr yw niwsans sŵn posibl.

3.1.10 Tynnodd rhai ymatebion sylw at y ffaith y byddai cael gwared ar y rheol 3 metr yn lleihau beichiau gweinyddol drwy leihau nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynir, symleiddio gosodiadau, a gostwng costau i ddefnyddwyr ac awdurdodau lleol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

3.1.11 Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn dangos cefnogaeth gref i'r cynnig i gael gwared ar y rheol 3 metr. Bydd y cynnig hwn yn galluogi mwy o aelwydydd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cartrefi â lle cyfyngedig yn yr awyr agored, i gael budd o ddatrysiad gwresogi adnewyddadwy. Drwy gynyddu hyblygrwydd wrth leoli pympiau gwres o'r aer, mae'r polisi'n cefnogi defnydd ehangach, gan helpu i gyflymu cynnydd tuag at dargedau sero net a lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil. Mae hefyd yn hyrwyddo tegwch drwy sicrhau nad yw cyfyngiadau gofodol yn eithrio rhai grwpiau'n anghymesur rhag cymryd rhan yn y newid i ynni glanach.

3.1.12 Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod rhaid i MCS (020)a gefnogi dileu'r rheol 3 metr, ac felly rhaid i bob gosodiad o bympiau gwres o'r aer gydymffurfio â'r safonau hyn i gael budd o hawliau datblygu a ganiateir. Lle na cheir cydymffurfedd, bydd angen cais cynllunio.

3.1.13 Cyflwynodd yr MCS eu safonau diwygiedig ar gyfer pympiau gwres o'r aer ar 20 Mawrth 2025 (wedi'u diwygio ymhellach ar 23 Ebrill), ac er nad yw'r rhain yn berthnasol yng Nghymru eto, byddant yn rhan o'r hawliau datblygu a ganiateir os bydd y cynigion ymgynghori yn cael eu dwyn i rym.

3.1.14 Mae MCS (020)a yn cynnwys methodoleg asesu acwstig ddiwygiedig, yn cefnogi gosodiadau sy'n agosach at ffiniau eiddo yn amodol ar gydymffurfedd acwstig, ac yn gwella canllawiau gosodwyr ar asesiadau sŵn. Mae'r MCS hefyd yn darparu canllawiau ar beth sy'n cyfrif fel rhwystr acwstig. Yn y cyd-destun hwn, bydd

Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno amod newydd yn Rhan 40, sef bod rhaid cadw a chynnal a chadw'n barhaol unrhyw rwystr acwstig sy'n ofynnol i sicrhau cydymffurfedd â safonau cynllunio MCS 020(a) ar gyfer gosod, addasu neu ailosod pwmp gwres o'r aer er mwyn sicrhau cydymffurfedd parhaus â gofynion lliniaru sŵn.

3.1.15 Cefnogir y gofyniad bod gosodiadau'n bodloni safonau MCS (020)a gan y gwelliant mewn technoleg pympiau gwres a'r cynnydd arfaethedig yng nghyfaint yr uned a ddylai arwain at unedau tawelach a helpu i leihau'r risg o effaith sŵn annerbyniol ar ddefnydd cyfagos.

3.1.16 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig yn y cam cyntaf o weithredu, yn amodol ar yr ystyriaethau uchod ac yng nghyd-destun y dulliau arfaethedig eraill a nodir yn yr adroddiad hwn.

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno y dylai cyfaint allanol presennol pwmp gwres o'r aer gael ei gynyddu o 1 metr ciwbig i 1.5 metr ciwbig? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 21 | 1 | 7 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 4 | 1 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 11 | 2 | 2 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 45 | 8 | 12 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 14 | 0 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **98** | **12** | **25** |
| **Canran** | **73** | **9** | **19** |

Y prif themâu

3.1.19 Y brif thema mewn ymateb i gwestiwn 3:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r gyfaint allanol a ganiateir ar gyfer pympiau gwres o'r aer i 1.5 metr ciwbig.

Trosolwg

3.1.20 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 73% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Caniatáu gwyntyllau mwy o faint, arafach sy'n cynhyrchu llai o sŵn.
- Gwell perfformiad ac effeithlonrwydd.

- Mae'n cefnogi mabwysiadu pympiau gwres o'r awyr ar fwy o fathau o eiddo.
- Yr angen am gysondeb o ran polisi ledled y DU.
- Mae'n symleiddio'r broses osod.
- Mae'n annog arloesedd wrth ddylunio pympiau gwres.
- Pryderon ynghylch goblygiadau effaith weledol mewn lleoliadau sensitif.
- Dylai pympiau gwres o'r aer barhau i gydymffurfio â'r terfynau sŵn presennol.
- Mwy o ddewis i ddefnyddwyr.

3.1.21 Mae rhai ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch effaith weledol bosibl unedau mwy, yn enwedig mewn lleoliadau sensitif fel parciau cenedlaethol neu ardaloedd cadwraeth. Mae Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Tirweddau Cymru yn nodi eu bod yn gwrthwynebu'r cynnig os na chaiff parciau cenedlaethol eu heithrio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

3.1.22 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i gynyddu'r gyfaint allanol a ganiateir ar gyfer pympiau gwres o'r aer i 1.5 metr ciwbig. Mae'r newid arfaethedig i hawliau datblygu a ganiateir yn galluogi ymateb hyblyg i anghenion gwahanol anheddau er mwyn cael budd o effeithlonrwydd perfformiad a gostyngiadau sŵn posibl.

3.1.23 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr y gallai pympiau gwres mwy gael effaith negyddol ar ardaloedd sensitif. Mae'r hawliau datblygu a ganiateir sy'n bodoli eisoes yn gosod amrywiol gyfyngiadau ar osod pwmp gwres, gan gynnwys a ydyw o fewn cwrtil y tŷ annedd os yw'r tŷ annedd yn adeilad rhestredig, y byddai'n cael ei osod mewn safle a ddynodwyd yn heneb gofrestredig, neu y byddai'r pwmp gwres o'r aer yn cael ei osod ar wal neu do sy'n wynebu priffordd. Mae ardaloedd dynodedig eraill fel parciau cenedlaethol ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ag sy'n berthnasol i leoliadau y tu allan i'r ardaloedd hyn. Dylid nodi bod yr ymgynghoriad hwn yn ceisio caniatáu pympiau gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd. Gweler cwestiwn 6 a chwestiwn 8.

3.1.24 Diben parciau cenedlaethol yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y parciau cenedlaethol; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig (y parc). Ni ystyrir y byddai effaith weledol pympiau gwres o'r aer ar eiddo o fewn parciau cenedlaethol yn effeithio'n negyddol ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y parc cenedlaethol, yn enwedig os cânt eu hystyried yn erbyn yr opsiynau gwresogi presennol sy'n debygol o gynnwys atebion oddi ar y grid fel tanciau nwy petroliwm hylifol (LPG) neu olew cerosin, sy'n sylweddol fwy ac (ar sail diogelwch) ymhellach o'r annedd nag y byddai pwmp gwres o'r aer o ran yr angen i drosglwyddo gwres i'r annedd. Hefyd, mae llawer o anheddau mewn parciau cenedlaethol o fewn trefi marchnad neu bentrefi â nodweddion mwy trefol, felly byddai datgymhwyso cyffredinol yn anfantais i'r trigolion hynny. Felly, ar y cyfan, ystyrir na fyddai effaith weledol gyfyngedig pympiau gwres o'r aer yn drech na buddion technolegau gwres carbon isel o ran eu cyfraniad at ddatgarboneiddio,

tlodi tanwydd a diogelwch ynni. Er gwaethaf hyn, gall awdurdodau cynllunio lleol, gan gynnwys parciau cenedlaethol, wneud cyfarwyddiadau erthygl 4(1) a allai gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir mewn ardaloedd penodol os oes tystiolaeth glir i gefnogi gwneud hynny.

3.1.25 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod buddion pympiau gwres mwy yn drech na'r effeithiau posibl, ac y bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn lliniaru pryderon ymhellach. Ar y sail hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig yn y cam cyntaf o weithredu, yn amodol ar gyfyngiadau eraill a nodir yn yr adroddiad hwn.

**Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfyngiad presennol ar un pwmp gwres o'r aer ar neu o fewn cwrtil tŷ annedd gael ei gynyddu i uchafswm o ddau pan fo'r tŷ annedd yn eiddo ar wahân? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 16 | 5 | 8 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 5 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 8 | 1 | 5 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 48 | 5 | 11 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 12 | 2 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **92** | **13** | **28** |
| **Canran** | **69** | **10** | **21** |

Y prif themâu

3.1.26 Y brif thema mewn ymateb i gwestiwn 4:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi cynyddu'r cyfyngiad ar nifer y pympiau gwres o'r aer a ganiateir o un i ddau ar dŷ annedd ar wahan.

Trosolwg

3.1.27 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 69% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Helpu i ddiwallu anghenion eiddo mwy.
- Gwella effeithlonrwydd gwresogi.
- Buddion i gartrefi gwledig.
- Eisiau cael gwared ar y cyfyngiad yn llwyr.
- Ystyried effaith sŵn cronnus.
- Yr angen am gysondeb o ran polisi ledled y DU.
- Pwysigrwydd safonau MCS i atal sŵn fel pryder.

3.1.28 Ymatebodd rhai ymatebwyr ‘ydw’ ond maent yn dadlau y dylai cyfyngiadau fod yn seiliedig ar arwynebedd llawr neu ddefnydd ynni yn hytrach nag ar anheddau ar wahân yn unig, ac felly gallent gynnwys anheddau mawr eraill o wahanol fathau fel eiddo lled-wahanedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

3.1.29 Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i ganiatáu hyd at ddau bwmp gwres ar annedd ar wahân.

3.1.30 O ran pryderon a godwyd ynghylch effaith sŵn gronnus mwy nag un pwmp gwres o’r aer, bydd y terfynau sŵn a’r mesurau lliniaru a nodir yn MCS 020(a) yn berthnasol i ddwy uned, felly ni ddylai dwy uned sydd ar waith gyda’i gilydd fod yn fwy na’r terfyn 40 desibel.

3.1.31 Er y cydnabyddir y gallai fod gan fathau eraill o anheddau alw am wresogi sy’n fwy na’r cyfartaledd, mae sawl problem sy’n ei gwneud hi’n anodd o bosibl ehangu’r hawl datblygu a ganiateir y tu hwnt i anheddau ar wahân. Gallai dull maint anheddau fod yn gymhleth o ran yr amrywioldeb yng nghynllun anheddau, yr ansicrwydd ynghylch pa agwedd ar faint yr eiddo a fyddai’n fesuradwy, ac amrywiaeth o ran agosrwydd anheddau. Hefyd, gall y risg uwch o sŵn ac ymyriadau gweledol fod yn fwy heriol i’w fonitro a’i orfodi.

3.1.32 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cynnig yn ddull rhesymol a chymesur o fynd i’r afael ag anghenion gwahanol fathau o eiddo. Rydym o’r farn y dylid bwrw ymlaen ar y sail hon yn y cam cyntaf o weithredu, gan ystyried sut y dylid cymhwyso’r dull mewn ardaloedd sensitif fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Cwestiwn 5: A ydych chi’n credu y dylai hawliau datblygu a ganiateir ganiatáu gosod pympiau gwres o’r aer ar neu o fewn cwrtil bloc o fflatiau annibynnol? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 16 | 0 | 12 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 4 | 1 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 5 | 7 | 2 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 39 | 7 | 18 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 8 | 3 | 3 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **74** | **19** | **37** |
| **Canran** | **57** | **15** | **28** |

Y prif themâu

3.1.33 Y brif thema mewn ymateb i gwestiwn 5:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o ganiatáu gosod pympiau gwres o'r aer ar neu o fewn cwrtil blociau o fflatiau annibynnol.

Trosolwg

3.1.34 Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 57% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio'r stoc dai.
- Mae'n sicrhau tegwch o ran ynni i ddeiliaid fflatiau.
- Gallai cymhlethdodau perchnogaeth ei gwneud hi'n anodd.
- Dylid ystyried hygyrchedd cynnal a chadw a diogelwch tân.
- Cydnabod y gallai lle fod yn gyfyngiad.
- Pryderon ynghylch yr effeithiau ar amwynderau gweledol.
- Pwysigrwydd safonau MCS i atal sŵn fel pryder.
- Efallai y byddai ateb cymunedol ar gyfer yr opsiwn gwresogi carbon isel yn well.
- Pryderon ynghylch llygredd sŵn a'r effaith gronnus o fwy nag un pwmp gwres o'r aer.

3.1.35 Mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai caniatâd cynllunio llawn barhau ar gyfer fflatiau oherwydd cymhlethdod. Mae awgrymiadau y dylai'r llywodraeth ddatblygu strategaethau cynhwysfawr a chyhoeddi canllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol a safoni gwneud penderfyniadau, gan sicrhau dull cytbwys rhwng hwyluso gosodiadau a rheoli effeithiau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

3.1.36 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i ganiatáu gosod nifer o bympiau gwres o'r aer ar floc o fflatiau. Fodd bynnag, er bod mwyafrif o gefnogaeth i'r cynnig hwn, a chydnabyddiaeth o'r buddion posibl a'r dewis gwell o wresogi y gallai gosodiadau o'r fath eu cynnig, mae hefyd yn amlwg o'r ymatebion bod nifer o bympiau gwres o'r aer yn codi amrywiol faterion a allai gael effeithiau ar drigolion y fflatiau a'r cymunedau a'r amgylchedd cyfagos.

3.1.37 Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymhlethdodau posibl o ganlyniad i osod nifer o bympiau gwres o'r aer ar floc o fflatiau annibynnol wedi'u datrys yn ddigonol. Mae angen ystyried materion fel lefelau sŵn, gofynion lle, effaith weledol ac agweddau ymarferol eraill ar y gosodiad ymhellach. Am y rheswm hwn, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ar hyn o bryd.

**Cywiriad**

3.1.38 Nododd un ymatebydd fod y diffiniad o dŷ annedd a nodir yn nosbarth J (Dehongliad) Rhan 40 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn diffinio

tŷ annedd fel un sydd ‘yn cynnwys adeilad sy’n cynnwys fflatiau yn gyfan gwbl, neu a ddefnyddir at ddibenion tŷ annedd’.

3.1.39 Gwneir cywiriad i destun yr ymgynghoriad sy’n ymwneud â’r cynnig hwn. Roedd y ddogfen ymgynghori yn datgan, ‘Ar hyn o bryd, nid yw hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru yn caniatáu pympiau gwres o’r aer ar neu o fewn cwrtil bloc o fflatiau’. Mae’r datganiad hwn yn anghywir. Mae dosbarth G yn Rhan 40 yn nodi bod gosod, newid neu ailosod pwmp gwres o’r aer ar dŷ annedd, neu o fewn cwrtil tŷ annedd, gan gynnwys ar adeilad o fewn y cwrtil hwnnw (yn amodol ar gyfyngiadau) yn gyfystyr â datblygiad a ganiateir.

3.1.40 O dan Ran 40, adran J – Dehongli, mae’n datgan ‘mae tŷ annedd yn cynnwys adeilad sy’n cynnwys fflatiau yn gyfan gwbl, neu a ddefnyddir at ddibenion tŷ annedd’. Felly, o dan yr hawliau datblygu a ganiateir sy’n bodoli eisoes, caniateir un pwmp gwres ar floc o fflatiau ar hyn o bryd, a bydd hyn yn cael ei gadw.

**Cwestiwn 6: A ydych chi’n cytuno y dylid caniatáu pympiau gwres o’r aer ar wal sy’n wynebu priffordd (lle nad yw’r gosodiad o fewn ardal gadwraeth, ar adeilad rhestredig nac ar heneb gofrestredig)? Os ydych yn cytuno, a ydych chi’n credu y byddai hyd at ddau bwmp gwres o’r aer ar wal sy’n wynebu priffordd yn dderbyniol? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 20 | 1 | 7 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 4 | 1 | 2 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 5 | 9 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 38 | 16 | 10 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 10 | 1 | 3 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 1 | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **78** | **28** | **26** |
| **Canran** | **59** | **21** | **20** |

Y prif themâu

3.1.41 Y prif themâu mewn ymateb i gwestiwn 6:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi’r egwyddor o ganiatáu gosod pympiau gwres o’r aer ar wal sy’n wynebu priffordd (lle nad yw’r gosodiad o fewn ardal gadwraeth, ar adeilad rhestredig nac ar heneb gofrestredig).

- Cefnogaeth gyffredinol y dylid eithrio ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig a henebion hynafol cofrestredig o’r newid arfaethedig i hawliau datblygu a ganiateir.

Trosolwg

3.1.42 Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 59% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n darparu mwy o hyblygrwydd.
- Mae'n darparu mwy o ddewis i ddefnyddwyr.
- Mae'n annog defnyddio systemau gwresogi carbon isel.
- Mae'n helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net.
- Mae'n helpu i leddfu tlodi tanwydd.
- Angen dylunio sensitif a sgrinio priodol.
- Pryderon ynghylch cyfyngiadau mewn adeiladau sensitif ac o fewn Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- Yr angen am gysondeb o ran polisi ledled y DU.
- Dim gwahaniaeth yn yr effeithiau ar amwynderau rhwng un a dwy uned.
- Anogir dylunio a sgrinio da (e.e. ffensio, plannu) i leihau'r effaith weledol.
- Dylai gosodiadau fod yn destun lefelau sŵn derbyniol.
- Byddai ymddangosiad pympiau gwres o'r aer yn cael ei normaleiddio dros amser.

Safbwyntiau ar osod hyd at ddau bwmp gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd

3.1.43 Roedd barn gymysg ynghylch nifer yr unedau a ganiateir gan y cynnig hwn. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu gosod hyd at ddau bwmp gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd. Mae rhai'n awgrymu cyfyngu i un, oni bai ei fod yn angenrheidiol yn dechnegol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r datblygiad a ganiateir gynnwys gofyniad i blannu, neu ddulliau sgrinio eraill i leihau'r effaith weledol.

3.1.44 Nododd nifer o ymatebwyr y gallai sŵn traffig ffyrdd guddio sŵn pympiau gwres o'r aer, gan leihau'r effaith ar gymdogion.

Ardaloedd cadwraeth a threftadaeth

3.1.45 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylid caniatáu gosod pympiau gwres o'r aer o flaen anheddau mewn ardaloedd cadwraeth neu ar adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig. Ystyriwyd bod unrhyw effeithiau posibl ar yr asedau treftadaeth hyn yn haeddu ystyriaeth briodol, a dim ond drwy'r broses ymgeisio am ganiatâd cynllunio y gellir gwneud hynny.

3.1.46 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn cydnabod bod y datblygiad yn hawdd ei wrthdroi ac y dylid ystyried ymestyn hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod pympiau gwres o'r aer i adeiladau rhestredig, adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth a henebion cofrestredig.

Dau bwmp gwres o'r aer ar wal yn wynebu priffordd

3.1.47 O'r rhai a ymatebodd yn benodol i'r cwestiwn am ddau bwmp gwres o'r aer ar wal yn wynebu priffordd, nododd dros draean gefnogaeth i ddau bwmp gwres o'r aer

ar wal yn wynebu'r briffordd, er bod rhai wedi ychwanegu rhybuddion ynghylch y lleoliad a'r dyluniad. Nid yw'n glir faint o rai eraill a oedd yn cefnogi rhan gyntaf cwestiwn 6 ond nad atebodd yr ail ran, a oedd hefyd yn cefnogi'r ddau bwmp gwres o'r aer.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

3.1.48 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i osod pwmp gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd (lle nad yw'r gosodiad o fewn ardal gadwraeth, ar adeilad rhestredig nac ar heneb gofrestredig). Mynegodd yr ymatebwyr gefnogaeth i'r hyblygrwydd gwell y byddai'r cynnig hwn yn ei ganiatáu. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod y cynigion yn taro cydbwysedd da rhwng galluogi defnydd a gwarchod amwynder gweledol lle bo angen.

3.1.49 O ran y cynnig i ganiatáu hyd at ddau bwmp gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd (heb fod mewn ardal gadwraeth), ystyrir ei fod yn ymateb cymesur i'r angen brys am atebion gwresogi carbon isel ar gyfer eiddo domestig yng Nghymru. Mae caniatáu hyd at ddau bwmp gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu'r briffordd, yn amodol ar gydymffurfio â safonau maint, sŵn a dylunio, yn cynrychioli dull cytbwys sy'n cyd-fynd â darpariaethau statudol, blaenoriaethau polisi cenedlaethol, a'r gorchymyn cyffredinol i leihau allyriadau carbon wrth ddiogelu amwynder lleol.

3.1.50 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cynnig yn ddull rhesymol a chymesur o'i gwneud hi'n haws gosod pwmp gwres o'r aer ar wahanol fathau o anheddau. Rydym o'r farn y dylid bwrw ymlaen ar y sail hon yn y cam cyntaf o weithredu, gan roi ystyriaeth bellach i sut y dylid cymhwyso'r dull mewn ardaloedd sensitif.

**Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad ar beidio â chaniatáu gosod pwmp gwres o'r aer lle mae tyrbin gwynt wedi'i leoli yng nghwrtil annedd? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 20 | 1 | 7 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 5 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 13 | 1 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 51 | 3 | 10 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 10 | 0 | 3 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **102** | **5** | **23** |
| **Canran** | **78** | **4** | **18** |

Y prif themâu

3.1.51 Y brif thema mewn ymateb i gwestiwn 7:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gael gwared ar y cyfyngiad sy'n cyfyngu ar osod pwmp gwres o'r aer lle mae tyrbin gwynt wedi'i leoli yng nghwrtil annedd.

Trosolwg

3.1.52 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 78% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd.
- Mae'n gwella annibyniaeth ynni.
- Effaith weledol pwmp gwres o'r aer yn ddibwys.
- Dim rheswm dilys pam na ellir cydleoli pympiau gwres o'r aer a thyrbinau gwynt ar yr un eiddo.
- Mae'n cefnogi datgarboneiddio a chydnerthedd ynni.
- Mynegi angen i gyfyngu ar sŵn a glynu wrth safonau MCS 020(a).

**Ymateb y Llywodraeth**

3.1.53 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i gael gwared ar y cyfyngiad sy'n cyfyngu ar osod pwmp gwres o'r aer lle mae tyrbin gwynt wedi'i leoli yng nghwrtil annedd. Mynegodd yr ymatebwyr gefnogaeth i'r hyblygrwydd gwell y byddai'r cynnig hwn yn ei ganiatáu.

3.1.54 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen rhagor o dystiolaeth i ddeall y sŵn a'r effaith weledol bosibl o osod pwmp gwres o'r aer yn ogystal â thyrbin gwynt yng nghwrtil annedd. Mae angen ystyried materion fel lefelau sŵn, gofynion lle, effaith weledol ac agweddau ymarferol eraill ar y gosodiad ymhellach. Am y rheswm hwn, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.

**Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfyngiadau a restrir ym mharagraff 2.33 uchod (ac o ran paragraffau 2.31–2.32) gynnwys cyfeiriad at gyfyngu ar osodiadau ar wal (neu do) tŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ annedd (gan gynnwys ar adeilad o fewn y cwrtil hwnnw) sy'n wynebu priffordd mewn ardal gadwraeth? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 13 | 6 | 9 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 4 | 2 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 12 | 2 | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 30 | 12 | 19 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 10 | 1 | 4 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **72** | **23** | **34** |
| **Canran** | **56** | **18** | **26** |

Y prif themâu

- Nododd 56% o'r ymatebwyr y byddent yn cefnogi cyfyngu ar osodiad ar wal (neu do) tŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ annedd (gan gynnwys ar adeilad o fewn y cwrtil hwnnw) sy'n wynebu priffordd mewn ardal gadwraeth.

- O'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno â chyflwyno'r cyfyngiadau, roedd rhai'n teimlo bod angen asesu ardaloedd cadwraeth yn unigol ac felly na ellid mabwysiadu dull cyffredinol, tra dywedodd eraill y byddai'r cyflwyniad yn rhy gyfyngol ac y byddai'n llesteirio cyflwyno mentrau sero net.
- Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig.

Trosolwg

3.1.55 Cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig hwn ar draws pob sector. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Angenrheidiol i gynnal cymeriad a gwarchod asedau treftadaeth, yn ogystal ag amwynder gweledol.
- Mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r cyfyngiad arfaethedig fod ar waith mewn ardaloedd sensitif eraill (gan gynnwys yr holl dir yn ymwneud ag erthygl 1(5), parciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol).
- Gallai greu rhwystr diangen i ddatgarboneiddio gwres mewn ardaloedd trefol.
- Mae rhai ymatebwyr yn ystyried bod y cynnig hwn yn rhy gyfyngol.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.1.56 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i gynnwys y cyfyngiad sy'n cyfyngu ar osod pwmp gwres o'r aer ar wal (neu do) tŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ annedd (gan gynnwys ar adeilad o fewn y cwrtil hwnnw) sy'n wynebu priffordd mewn ardal gadwraeth.

3.1.57 Diben parciau cenedlaethol yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r rhinweddau arbennig a cheisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y parciau cenedlaethol. Mae parciau cenedlaethol hefyd yn cynnwys ardaloedd cadwraeth a fyddai'n dod o dan y cyfyngiad arfaethedig hwn. Felly, ni ystyrir y byddai effaith weledol pwmp gwres o'r aer ar wal neu do tŷ annedd sy'n wynebu priffordd yn ardal sy'n weddill o barc

cenedlaethol (o’i ystyried ochr yn ochr â’r amodau eraill y mae’n rhaid eu bodloni) yn tanseilio diben y parc cenedlaethol[1] ac yn drech na buddion cyfleoedd technoleg carbon isel i drigolion o fewn y parc cenedlaethol. Gall awdurdodau cynllunio lleol, gan gynnwys parciau cenedlaethol, wneud cyfarwyddiadau erthygl 4(1) a allai gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir mewn ardaloedd penodol os oes tystiolaeth glir i gefnogi gwneud hynny.

3.1.58 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cynnig yn ddull rhesymol a chymesur o warchod lleoliad ardaloedd cadwraeth. Rydym o’r farn y dylid bwrw ymlaen yn y cam cyntaf o weithredu ar y sail hon.

**Cwestiwn 9: A ydych chi’n cytuno y dylai’r cyfyngiadau eraill a restrir ym mharagraff 2.33 uchod aros heb eu newid? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 11 | 4 | 13 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 4 | 1 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 12 | 3 | 0 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 18 | 12 | 31 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 7 | 3 | 3 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **54** | **23** | **49** |
| **Canran** | **43** | **18** | **39** |

Y prif themâu

- Nododd 43% o’r ymatebwyr y dylai’r cyfyngiadau eraill a restrir ym mharagraff 2.33 o’r ddogfen ymgynghori aros heb eu newid.

- O’r rhai a gytunodd y dylai’r cyfyngiadau aros heb eu newid, roedd rhai o’r farn bod y cyfyngiadau presennol a amlinellir ym mharagraff 2.33 yn rhesymol ac y bydd cynnal y cyfyngiadau yn sicrhau na fydd pympiau gwres o’r aer yn effeithio’n andwyol ar amwynder lleol.

Trosolwg

3.1.59 Cafwyd ymateb cymysg i’r cynnig hwn ar draws pob sector. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

[1] Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

- Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr fod y cyfyngiadau a gynhwysir ym mharagraff 2.33 o'r ddogfen ymgynghori yn ddigonol ac yn briodol, felly dylent aros heb eu newid.
- Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol yn cytuno â'r cwestiwn.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai cyfyngiadau gynnwys parciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol, yn ogystal ag ardaloedd cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- Galwadau am ddileu'r cyfyngiad lle mae pwmp gwres o'r aer wedi'i osod ar do gwastad wedi'i leoli o fewn un metr i ymyl allanol y to hwnnw.
- Nododd nifer fach o ymatebwyr y dylid dileu'r cyfyngiadau yn eu cyfanrwydd gan nad ydynt yn cadw i fyny â newidiadau technolegol. Yn ei hanfod, mae'r cyfyngiadau hyn yn atal y defnydd o bympiau gwres o'r aer.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.1.60 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cynigion yn ddigonol i sicrhau cydbwysedd rhwng gwella'r rhwyddineb a'r cyfle i fabwysiadu pympiau gwers o'r aer ar eiddo domestig, a phwysigrwydd diogelu amwynder preswyl ac amwynder gweledol. Nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau eraill i'r cyfyngiadau a gynhwysir yn 2.33 o'r ddogfen ymgynghori ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 10: A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â phympiau gwres o'r aer nad ydynt yn cael sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?**

<u>Trosolwg</u>

3.1.61 Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Dylid cynhyrchu canllawiau i sicrhau bod pob parti sydd â diddordeb yn deall yn glir sut y dylid dehongli'r hawliau datblygu a ganiateir diwygiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod tryloywder, yn ogystal â chanllawiau cyson yn cael eu cynhyrchu.
- Dylid ystyried dyluniad, lliw, deunyddiau, lleoliad a rhwystrau acwstig, a sut y byddent / dylent weithio.
- Dylai canllawiau fod ar gael hefyd ar gyfer cynlluniau lle mae angen caniatâd cynllunio.
- Dylai fod asesiadau sŵn safonol.
- Barn ynghylch a ydyw codi ffi yn angenrheidiol ar gyfer gosodiadau lle mae angen caniatâd cynllunio.
- Dylid asesu'r gwaith o fonitro'r newidiadau hyn hefyd, er mwyn deall yr effeithiau yn well.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.1.62 Rhoddodd yr ymatebwyr adborth defnyddiol yn yr adran hon. Byddwn yn ystyried a oes angen cynhyrchu canllawiau i gyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig i hawliau datblygu a ganiateir.

## 3.2 Gwefru cerbydau trydan oddi ar y stryd

**Cwestiwn 11: A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n datgan na all pwyntiau trydan wedi'u gosod ar wal ar gyfer gwefru cerbydau trydan wynebu priffordd a bod o fewn 2 fetr o briffordd? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 15 | 3 | 10 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 3 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 9 | 6 | 0 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 39 | 6 | 11 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 10 | 1 | 1 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 4 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **80** | **16** | **24** |
| **Canran** | **67** | **13** | **20** |

Y prif themâu

3.2.1 Y brif thema mewn ymateb i gwestiwn 11:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gael gwared ar y cyfyngiad na all socedi sydd wedi'u gosod ar y wal wynebu priffordd na bod o fewn 2 fetr i briffordd.

Trosolwg

3.2.2 Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn ar draws pob sector, gyda 67% yn cytuno. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Byddai'r cynnig yn sicrhau cysondeb â'r Alban a Lloegr.
- Gallai dileu'r cyfyngiad hwn gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan ledled Cymru.
- Byddai cael gwared ar y cyfyngiad hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd mewn opsiynau gosod.
- Mae angen ystyried pob ardal o ddiddordeb hanesyddol arbennig, fel ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig.
- Pryderon ynghylch effaith weledol canlyniadau'r cynnig hwn.
- Pryderon ynghylch ceblau yn hongian dros y briffordd gyhoeddus.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.4.5 Rydym o'r farn bod y dimensiynau arfaethedig yn gyfaddawd addas rhwng galluogi gosod peiriannau rhoi arian am ailgylchu mewn lleoliadau addas gan ddefnyddio technoleg brofedig heb greu effaith oherwydd màs na graddfa. Mae'r mesuriadau hyn yn cynnwys darparu unrhyw gynfasau neu addurniadau ar gyfer gosodiadau o'r fath. Os bydd gweithredwyr yn dymuno gosod peiriannau rhoi arian am ailgylchu mwy na'r rhai a ganiateir o dan y newidiadau hyn er mwyn sicrhau parhad ag arferion mewn mannau eraill, gallant geisio gwneud hynny drwy wneud cais am ganiatâd cynllunio.

3.4.6 Fel gyda phob cynnig arall yn yr ymgynghoriad hwn, bydd amgylchiadau lleol lle nad yw cyflwyno rheoliadau datblygu a ganiateir o'r fath yn addas, a gall yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol ystyried cyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4(1).

**Cwestiwn 23: A ydych chi'n cytuno na ddylai cynllun dychwelyd ernes fod yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau penodol yn ymwneud â chydsyniad hysbysebu ac y dylai fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ag sy'n bodoli ar gyfer datblygiadau eraill tebyg, fel peiriannau codi arian? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 6 | 1 | 16 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 12 | 1 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 22 | 2 | 24 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 3 | 0 | 3 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 1 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **46** | **4** | **47** |
| **Canran** | **47** | **4** | **48** |

Trosolwg

3.4.7 Cafodd y cynnig i beidio â chynnig unrhyw eithriad penodol i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 ar gyfer cynllun dychwelyd ernes gefnogaeth eang gan yr ymatebwyr.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.4.8 Ystyrir bod Rheoliadau 1992 yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd, gan gynnwys y gofyniad i bob arwydd goleuedig fod yn destun caniatâd penodol. Ni fyddwn yn cyflwyno unrhyw welliannau penodol i Reoliadau 1992 sy'n ymwneud â pheiriannau rhoi arian am ailgylchu.

**Cwestiwn 24: A ydych chi'n cytuno bod y pellter 15 metr oddi wrth gwrtil adeilad a ddefnyddir at ddibenion preswyl yn bellter digonol i liniaru effaith sŵn ailgylchu gwydr? Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw wybodaeth a fyddai'n helpu i gyfiawnhau pellter gwahanol? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 5 | 3 | 15 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 1 | 0 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 2 | 6 | 6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 15 | 9 | 25 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 0 | 2 | 5 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 0 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **24** | **23** | **52** |
| **Canran** | **24** | **23** | **53** |

Trosolwg

3.4.9 Cododd llawer o ymatebwyr bryderon y byddai'r gofyniad i ailgylchu gwydr yn achosi effaith ychwanegol ar amwynderau oherwydd yr acwsteg uwch o ailgylchu gwydr, hyd yn oed lle byddai mecanweithiau 'gollwng gan bwyll' i leihau torri'r gwydr. Mynegodd nifer bryderon nad oedd y pellter arfaethedig o 15 metr o gwrtil annedd yn addas ar gyfer sicrhau bod amwynder yn cael ei warchod.

3.4.10 Nododd nifer o ymatebwyr hefyd y byddai effaith sŵn yn deillio o ailgylchu gwydr yn newid oherwydd proffil sŵn cefndir y lleoliad, a fyddai'n wahanol yn ystod tywyllwch nos.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.4.11 Mae cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno peiriannau rhoi arian am ailgylchu yn cynnwys darpariaeth sy'n gwahardd datblygiad o fewn 15 metr o gwrtil annedd, fel y'i cyflwynwyd yn yr Alban ac a gynigiwyd yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bwrw ymlaen â gofyniad ailgylchu gwydr yr ymgynghorwyd arno yn ymarfer 2021, sy'n gynllun unigryw nas cyflwynwyd yn Lloegr na'r Alban, ac felly nid yw wedi'i adlewyrchu yn y newidiadau i'r rheoliadau datblygu a ganiateir sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn yr Alban.

3.4.12 Er bod rhywfaint o gefnogaeth i ailgylchu deunydd nad yw'n wydr, mae'r effaith andwyol bosibl ar sŵn a seinwedd sy'n deillio o ailgylchu gwydr mewn peiriannau rhoi arian am ailgylchu, boed hynny drwy falu neu ddulliau 'gollwng gan bwyll', wedi arwain at ymatebion meddylgar gan ymgyngoreion y mae angen eu hystyried ymhellach.

3.4.13 Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid arbenigol i nodi a ellid cyflwyno cyfres addas o reoliadau datblygu a ganiateir mewn ail gam o'r gweithredu, yn benodol ar gyfer peiriannau rhoi arian am ailgylchu sy'n cynnig ailgylchu gwydr. Gallai hyn gynnwys gofyniad lliniaru sŵn, mwy o bellter o ran cyfleusterau, ac oriau gweithredu cyfyngedig.

**Cwestiwn 25: A ydych chi'n credu bod y cyfyngiadau eraill ar y dosbarth datblygu a ganiateir newydd o dan Ran 42 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn dderbyniol? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 5 | 1 | 15 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 1 | 0 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 11 | 1 | 2 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 14 | 2 | 33 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 3 | 0 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 0 | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **35** | **5** | **55** |
| **Canran** | **37** | **5** | **58** |

<u>Trosolwg</u>

3.4.14 Roedd nifer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch y cyfyngiadau i'r dosbarth datblygu a ganiateir newydd o dan Ran 42 o atodlen 2 Gorchymyn 1995. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Dim digon o fanylion yn y cynnig ymgynghori ynghylch agosrwydd at y briffordd i wybod a fyddai'n ofynnol iddynt wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer llawer o safleoedd.
- Pryderon ynghylch effaith andwyol bosibl ar gerddwyr, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu golwg.
- Dylid cynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd, a chwrtil adeilad rhestredig o fewn y cyfyngiad.
- Wrth ystyried lleoliad peiriannau rhoi arian am ailgylchu ni ddylid cynnwys tir sy'n agored i berygl llifogydd, coed neu beri bod mannau parcio yn cael eu colli.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.4.15 Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd a chwrtil adeiladau rhestredig eisoes wedi'u cynnwys fel y pwynt bwled olaf o dan baragraff 6.6 o'r ddogfen ymgynghori, sy'n nodi'r diwygiad arfaethedig i Ran 42 o atodlen 2 Gorchymyn 1995. Rydym yn ystyried bod manylion y newidiadau arfaethedig yn ddigonol i ystyried a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer tu blaen adeiladau ar hyd y briffordd, wrth asesu manylion safleoedd penodol.

3.4.16 Rhaid i weithredwyr safleoedd gydymffurfio â'r amodau ar gyfer unrhyw ganiatâd cynllunio sydd eisoes wedi'i roi, megis y ddarpariaeth leiaf o leoedd parcio i gwsmeriaid. Lle bodlonir y rhain byddai trosi lleoedd parcio ychwanegol yn safle ar gyfer gweithfa cynllun dychwelyd ernes yn fater gweithredol.

3.4.17 Nodwn y sylw ynghylch y risg o lifogydd. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol yn nodi nad yw'n debygol y bydd cyfleusterau gwaredu gwastraff a gynigir mewn ardaloedd heb seilwaith amddiffyn rhag llifogydd sy'n bodoli eisoes sy'n destun llifogydd yn rheolaidd, neu o bosibl, yn dderbyniol. Wrth symud y rheoliad datblygu a ganiateir hwn yn ei flaen mewn ail gam, byddwn yn cynnwys tir o fewn parthau llifogydd 2 a 3 o fewn y cyfyngiad, sy'n golygu na chaniateir datblygu yn yr ardaloedd hyn heb wneud cais am

ganiatâd cynllunio. Byddai datblygu cynlluniau dychwelyd ernes yn y mannau hyn yn destun asesiad canlyniadau llifogydd, a fyddai'n nodi effeithiau posibl llygredd ar ddŵr wyneb a dŵr daear.

**Cwestiwn 26: A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â pheiriannau rhoi arian am ailgylchu nad ydynt yn cael sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?**

Trosolwg

3.4.18 Nododd ymatebwyr y dylai gosod peiriannau rhoi arian am ailgylchu ystyried yr angen am ddigon o le parcio i alluogi eu defnydd ac i atal colli mannau parcio oherwydd bod y peiriannau hyn wedi'u gosod. Nododd rhai ymatebwyr y gallai gosod peiriannau rhoi arian am ailgylchu effeithio'n andwyol ar gydymffurfedd ag amodau sy'n gysylltiedig â rhoi caniatâd cynllunio.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.4.19 Rydym wedi mynd i'r afael â'r angen i gydymffurfio â'r amodau presennol o dan ein hymateb i gwestiwn 25. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r angen i osod amodau ar oriau gweithredu sy'n cyfateb i oriau gweithredu'r busnes perthnasol, wrth ystyried mesurau i warchod y seinwedd rhag ailgylchu gwydr, fel yr amlinellwyd o dan ein hymateb i gwestiwn 24.

## 3.5 Datblygiad gan ymgymerwyr statudol – Trydan

**Cwestiwn 27: A ydych chi'n cytuno y dylai'r diffiniad o ymgymerwyr statudol gael ei ddiwygio i alluogi darparu gwasanaethau mesurydd deallus? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 9 | 0 | 12 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 12 | 1 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 23 | 7 | 17 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 5 | 0 | 1 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **54** | **8** | **32** |
| **Canran** | **57** | **9** | **34** |

Trosolwg

3.5.1 Roedd nifer fach o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r egwyddor gyffredinol o ddefnyddio mesuryddion clyfar, fodd bynnag, nid yw'r sylwadau hyn yn berthnasol i'r cwestiwn.

3.5.2 Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig y buddion o gynnwys gwasanaethau mesuryddion clyfar o fewn y diffiniad hwn, a oedd yn cynnwys mwy o ddefnydd o fesuryddion clyfar, a fyddai yn ei dro yn llywio penderfyniadau gan gwsmeriaid ynghylch defnydd trydan a chystadleuaeth rhwng cyflenwyr, yn ogystal â moderneiddio seilwaith ynni domestig.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.5.3 Mae consensws cyffredinol yn cefnogi'r newid hwn, ac rydym o'r farn y dylid cyflwyno o fewn yr ail gam o weithredu.

**Cwestiwn 28: A ydych chi'n cytuno â chynyddu maint datblygu a ganiateir ar gyfer gosodiad trydan o 29 metr ciwbig i 45 metr ciwbig, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau diwygiedig arfaethedig nad yw unrhyw osodiad amnewid yn fwy na 3 metr o uchder ac nad yw'n fwy na 29 metr ciwbig os ydyw o fewn 5 metr o annedd? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 5 | 1 | 14 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 10 | 1 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 20 | 7 | 23 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 2 | 0 | 3 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 1 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **40** | **9** | **44** |
| **Canran** | **43** | **10** | **47** |

Trosolwg

3.5.4 Cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig i gynyddu maint datblygu a ganiateir ar gyfer gosodiad trydan o dan ddatblygiad a ganiateir i 45 metr ciwbig yn amodol ar y cyfyngiadau diwygiedig i uchder ac agosrwydd at annedd. Atebodd 47% o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod'. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Pryderon ynghylch amwynder gweledol preswyl.
- Yr angen i ystyried lliniaru ar gyfer rhywogaethau a warchodir.

- Byddai is-orsafoedd modern 11 cilofolt yn arwain at osodiad o ddim ond 1.8 metr o uchder, lled a hyd, ac ni fyddai'r cyfyngiad i 29 metr ciwbig o fewn 5 metr i annedd yn gyfiawn.
- Awgrymu ymestyn y warchodaeth i adeiladau rhestredig a henebion hynafol.
- Angen ystyried effaith rheoliadau datblygu a ganiateir mwy ar angorfeydd neu gyfanrwydd strwythurol dyfrffyrdd.
- Angen moderneiddio'r seilwaith i ddiwallu'r galw.
- Cydnabod ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy a di-garbon, a fydd yn arwain at alw cynyddol am drydan gan ddefnyddwyr.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.5.5 Dylid nodi bod yr hawliau datblygu a ganiateir hyn eisoes yn bodoli, er i ddimensiynau llai. Byddai'r estyniad i 45 metr ciwbig yn galluogi cynnydd maint cymedrol, er enghraifft, o weithfa 3 metr x 3.2 metr x 3 metr, i weithfa 3 metr x 5 metr x 3 metr.

3.5.6 Nodwn y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch yr angen i ystyried gwarchod nodweddion tirweddau dynodedig wrth gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir estynedig ar gyfer gosod is-orsafoedd trydan.

3.5.7 Rydym o'r farn bod y cynnydd bach hwn yn nifer yr hawliau datblygu a ganiateir yn taro'r cydbwysedd cywir o ran hwyluso moderneiddio'r rhwydwaith trydan a chynyddu'r capasiti i ddiwallu'r galw, gan sicrhau hefyd bod datblygiad sy'n debygol o achosi effaith ar amwynderau yn parhau i fod yn destun y broses ymgeisio ffurfiol. Rydym o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn fel rhan o'r ail gam o weithredu.

**Cwestiwn 29: A ydych chi'n cytuno y dylai ymgymerwyr trydan allu amnewid llinell gyfathrebu drydan bresennol mewn parc cenedlaethol, ardal o harddwch naturiol eithriadol neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig heb fod angen ceisio caniatâd cynllunio, ar yr amod bod uchder, dyluniad neu safle'r llinell gyfathrebu newydd yn adlewyrchu uchder, dyluniad neu safle'r llinell gyfathrebu bresennol? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 8 | 1 | 13 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 10 | 2 | 2 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 24 | 12 | 15 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 4 | 1 | 1 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **50** | **18** | **32** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canran** | **50** | **18** | **32** |

Trosolwg

3.5.8 Roedd cefnogaeth gymedrol i'r cynnig i ganiatáu i ymgymerwyr trydan allu amnewid llinell gyfathrebu trydan bresennol mewn parc cenedlaethol, ardal o harddwch naturiol eithriadol neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig heb fod angen ceisio caniatâd cynllunio yn amodol ar amodau. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Risg y gallai arferion gwaith arwain at aflonyddwch i dderbynyddion sensitif.
- Mynegwyd barn gref ar egwyddor gosod ceblau trydan o dan y ddaear, yn hytrach na'u hamnewid gan rai cyfatebol.
- Gallai arwain at golli cyfle i geisio gwelliannau fel rhan o unrhyw beth newydd.

3.5.9 Nododd nifer o ymatebwyr, lle mae amnewid yn arwain at un sy'n union yr un fath neu'n debyg iawn, y gallai hyn fod yn dderbyniol o ran cynllunio. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd y gellid dehongli 'adlewyrchu', o bosibl, yn eang ac y gellid ymhelaethu ar y diffiniad.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.5.10 Mae dosbarth G2a o Ran 17 o atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn nodi:

*'Caniateir datblygiad G.2 gan ddosbarth G yn amodol ar yr amodau canlynol—*

*(a) yn achos unrhyw ddatblygiad dosbarth G(a) sy'n cynnwys neu'n disodli llinell drydan bresennol, cydymffurfio ag unrhyw amodau sydd wedi'u cynnwys mewn caniatâd cynllunio sy'n ymwneud ag uchder, dyluniad neu safle'r llinell drydan bresennol y gellir eu cymhwyso i'r llinell newydd'*

3.5.11 Rydym yn ystyried bod hwn yn ddiffiniad digon manwl gywir i lywio'r asesiad o amnewid cyfatebol fel y'i disgrifir yn yr ymgynghoriad. Mae amnewid llinell am un cyfatebol yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth roi caniatâd i adeiladu'r llinell drydan yn y lle cyntaf, a ddylai fynd i'r afael ag unrhyw gyfyngiadau angenrheidiol i ddulliau adeiladu neu osod. Yn ogystal, ni fyddai'r newid hwn i hawliau datblygu a ganiateir yn disodli'r dyletswyddau a roddir ar ymgymerwyr trydan i gydymffurfio â chyfundrefnau deddfwriaethol eraill. Mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer datblygiad lle rhoddir caniatâd o dan orchymyn datblygu, fel yr amlinellir yn rheoliad 75 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

3.5.12 Nodwn y safbwyntiau ynghylch cyfleoedd i osod llinellau o dan y ddaear pe byddai caniatâd cynllunio yn cael ei geisio i ailosod llinellau trydan. Y safbwynt yr ydym yn ei ffafrio o ran polisi cynllunio ynglŷn â llinellau pŵer newydd yw, lle bo modd, y dylid eu gosod o dan y ddaear. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yn rhaid cymryd safbwynt cytbwys rhwng unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol a chostau a allai wneud prosiectau derbyniol fel arall yn anhyfyw. Lle nad yw gosod llinellau o

dan y ddaear yn bosibl neu'n berthnasol, dylid ymgysylltu'n rhagweithiol â chwmnïau ynni a'r cyhoedd i liniaru effaith weledol unrhyw linellau trosglwyddo newydd posibl.

3.5.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Grŵp Cynghori Annibynnol Grid Trydan y Dyfodol i Gymru i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r dulliau posibl o ddarparu seilwaith trosglwyddo trydan, gan gynnwys ystyried peilonau a gosod ceblau trydan o dan y ddaear. Bydd y gwaith hwn yn ceisio'r atebion mwyaf priodol i Gymru. Bydd canlyniadau'r grŵp cynghori yn llywio safbwynt Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**Cwestiwn 30: A ydych chi'n credu bod y terfyn 1,000 metr ar amnewid llinell gyfathrebu electronig bresennol yn rhesymol ac yn gymesur o hyd, o ystyried y cyfyngiadau eraill ar uchder, dyluniad, a safle'r llinell gyfathrebu newydd? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| **Sefydliad** | **Ydw** | **Nac ydw** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 4 | 2 | 15 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 7 | 3 | 3 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 20 | 5 | 25 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 4 | 0 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **39** | **11** | **47** |
| **Canran** | **40** | **11** | **48** |

Trosolwg

3.5.14 Cafwyd ymateb cymysg i gwestiwn 30. Atebodd 48% o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod'. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Ystyrir bod y cynnig yn agregedig ac yn gymesur.
- Gellid cynyddu'r terfyn 1,000 metr.
- Gallai'r terfyn atal cyflwyno neu ddisodli technoleg newydd.
- Mae llinellau ffibr optig fwyaf effeithiol mewn hyd sengl, a gallai'r terfyn o 1 cilometr ar gyfer hyd newydd leihau eu heffeithlonrwydd.
- Byddai'n well eu gosod o dan y ddaear.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.5.15 Rydym yn nodi'r pwyntiau ynghylch effeithlonrwydd ffibr optig ac er nad ydym ar hyn o bryd yn cynnig cynyddu'r terfyn 1,000 metr, byddwn yn cadw hyn dan arolwg mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid arbenigol perthnasol.

**Cwestiwn 31: A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad ehangach arfaethedig o waith ymchwilio a ganiateir o dan ddosbarth G(c) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 3 | 0 | 18 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 11 | 2 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 12 | 3 | 33 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 2 | 2 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **32** | **7** | **56** |
| **Canran** | **34** | **7** | **59** |

Trosolwg

3.5.16 Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr 'ddim yn gwybod' i gwestiwn 31. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Pwysleisiwyd bod y gofyniad i adfer tir i'w gyflwr blaenorol ar ôl cwblhau gwaith ymchwilio yn bwysig.
- Angen amserlen benodol ar gyfer cwblhau'r gwaith.
- Dylid ehangu rheoliadau datblygu a ganiateir i leihau ansicrwydd.
- Awgrym y dylid cynnwys gosod mastiau meteorolegol dros dro ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ar y tir o dan ddosbarth G hefyd.
- Angen osgoi chwilio am fawn a'r rhyddhau carbon cysylltiedig.
- Angen sicrhau mai'r technegau a ddefnyddir i gynnal ymchwiliadau yw'r rhai mwyaf modern a lleiaf ymwthiol.

3.5.17 Roedd y rhai a wnaeth sylwadau o blaid y cynnig o'r farn bod y diwygiadau yn ehangu'r diffiniad yn rhesymol, gan alluogi ffurfiau newydd o waith ymchwiliol a'r gallu i fodloni'r gofynion cynyddol i gynnal gwaith o'r fath cyn gosod seilwaith trydanol.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.5.18 Nodwn y gefnogaeth i gyflwyno'r diffiniad wedi'i foderneiddio hwn o waith ymchwiliol, ac rydym o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt fel rhan o'r ail gam o weithredu. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r potensial ar gyfer diffiniad ehangach o hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy mewn adolygiad yn y dyfodol.

**Cwestiwn 32: A ydych chi'n cytuno â chyflwyno hawl datblygu a ganiateir newydd ar gyfer ymgymerwyr trydan o dan ddosbarth G(c) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995, i'w galluogi i adeiladu dull amgáu yn unol â'u dyletswyddau o dan erthygl 11 Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 5 | 1 | 14 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 11 | 1 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 18 | 3 | 26 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 3 | 0 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **41** | **6** | **44** |
| **Canran** | **45** | **7** | **48** |

Trosolwg

3.5.19 Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn gyda 45% yn cytuno. Rhoddodd y Grid Cenedlaethol, fel y prif fuddiolwr i welliant o'r fath, ymateb gwybodus a darluniadol a oedd yn tynnu sylw at y ffaith y gallai'r gwelliant arfaethedig greu canlyniadau anfwriadol. Cynghorodd y Grid Cenedlaethol:

'Mae dosbarth G(f) [o Orchymyn 1995] eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer 'unrhyw ddatblygiad arall a gyflawnir yn, ar, dros neu o dan dir gweithredol yr ymgymeriad'. Gellir defnyddio'r ddarpariaeth hon eisoes ar gyfer codi ffensys diogelwch a dulliau eraill o gau tir. Gallai creu hawl datblygu a ganiateir newydd yn benodol ar gyfer ffensio gael y canlyniad anfwriadol o dorri ffensio allan o ddosbarth G(f), a gosod cyfyngiad o 2.5 metr. O ystyried y diffyg dadlau ynghylch defnydd y Grid Cenedlaethol o ddosbarth G(f) ar gyfer ffensio / cau ar dir gweithredol sy'n fwy na 2.5 metr, nid yw'r cyfyngiad arfaethedig (anfwriadol) i 2.5 metr yn ymddangos yn gyfiawn.

3.5.20 Bydd cyflwyno darpariaeth newydd sy'n ymwneud yn benodol â dulliau cau tir ac yn cyfyngu'r uchder i 2.5 metr yn gam yn ôl, a bydd yn arwain at ymgymerwyr statudol (yn enwedig NGET fel yr ymgymerwr trawsyrru) yn gorfod ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith sydd ar hyn o bryd wedi'i gynnwys yn nosbarth G(f), ac nad yw'n ddadleuol ym mhrofiad y Grid Cenedlaethol. Byddai'r canlyniad anfwriadol hwn yn cynyddu amserlenni rhaglenni, na fyddai'n hwyluso'r newid gwyrdd.'

**Ymateb y Llywodraeth**

3.5.21 Rydym yn cytuno â chrynodeb y Grid Cenedlaethol o'r risg y gallai cyflwyno gwelliant o'r fath dynnu caniatâd yn ôl yn anfwriadol ar gyfer codi ffensys sydd

eisoes wedi'u cynnwys o dan ddosbarth G(f) Gorchymyn 1995. Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r gwelliant hwn.

**Cwestiwn 33: A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â thrydan nad ydynt yn cael sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?**

Trosolwg

3.5.22 Tynnwyd sylw yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad at nifer o faterion pellach ynghylch datblygu gan ymgymerwyr statudol, ac mae rhai ohonynt yn gysylltiedig â chynigion y rheoliadau datblygu a ganiateir, a rhai ohonynt y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad.

3.5.23 Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys tynnu sylw at y canlynol:

- Effaith llinellau uwchben a pheilonau yng nghefn gwlad Cymru, a'r effaith bosibl ar gymunedau, tirweddau, llesiant, a llygredd sŵn ger cartrefi.
- Cefnogwyd yn gryf gefnogaeth i osod pob cebl newydd o dan y ddaear.
- Dymuniad i reoliadau datblygu a ganiateir Cymru ar gyfer seilwaith trydan fod yn gyson â rhai Lloegr a, lle bo modd, yr Alban.
- Pryderon ynghylch effaith sŵn canfyddedig o beilonau trydan ger datblygiadau preswyl sy'n deillio o linellau o'r fath.

3.5.24 Awgrymodd y Grid Cenedlaethol y byddai gosod trydydd gwifren ar linellau presennol sy'n cynnwys dwy wifren ar bolion pren yn cynyddu capasiti'r rhwydwaith presennol yn sylweddol i ddiwallu ceisiadau am bwyntiau gwefru solar, gwynt a gwefru ceir trydan a chysylltiad pwmp gwres.

3.5.25 Awgrymodd y Grid Cenedlaethol hefyd nifer o welliannau eraill i reoliadau datblygu a ganiateir ar gyfer ymgymerwyr trydan er mwyn hwyluso a chyflymu'r broses o wella seilwaith trydan. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i baragraff G.1 Gorchymyn 1995 drwy ddileu'r terfyn cyfaint o 25% ar gyfer cynyddu maint gosodiadau trydan a nodir ym mharagraff G.1(c)(ii), ond cadw'r terfyn uchder ym mharagraff G.1(b)(ii). Cynigiodd y Grid Cenedlaethol hefyd ddileu'r gofyniad am gymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer rhai gweithfeydd, gan gynnwys ystafelloedd cyfnewid cludadwy ac asedau is-orsafoedd.

3.5.26 Mae Adran Diogeledd Ynni a Sero Net Llywodraeth y DU yn y broses o gynnal ei hymgynghoriad ei hun ar welliannau i seilwaith y rhwydwaith trydan, a lansiwyd ar 7 Gorffennaf. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw pan gaiff ei gwblhau.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.5.27 Rydym yn ymwybodol o ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar seilwaith y rhwydwaith trydan a mynediad i dir, a byddwn yn ystyried sylwadau a chasgliadau

perthnasol wrth fwrw ymlaen â'n gwaith yn y maes hwn fel rhan o'r ail gam o weithredu.

3.5.28 Nodwn gynigion y Grid Cenedlaethol ar gyfer estyniadau i hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys awgrym o drydydd cebl ar linellau sy'n cynnwys dwy wifren ar bolion pren, dileu'r terfyn cyfaint ar estyniadau i'r adeiladau presennol ar gyfer peiriannau a chyfarpar, a dileu'r angen i gydymffurfio â'r broses gymeradwyo ymlaen llaw. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hyn ymhellach fel rhan o'r ail gam o weithredu.

## 3.6 Safleoedd tai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser

**Cwestiwn 34: A ydych chi'n cytuno â chyflwyno hawl datblygu a ganiateir newydd yn Rhan 12A ar gyfer defnydd tai yn y cyfamser? Beth ddylai'r cyfnod hwyaf fod ar gyfer tai yn y cyfamser?**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 3 | 2 | 15 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 1 | 1 | 2 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 3 | 7 | 3 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 11 | 10 | 29 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 6 | 2 | 1 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **27** | **22** | **51** |
| **Canran** | **27** | **22** | **51** |

Trosolwg

3.6.1 Cafwyd 100 o ymatebwyr i gwestiwn 34. Atebodd mwyafrif yr ymatebwyr 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn ac nid oedd barn fwyafrifol ar y mater. Atebodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr 'ydw', gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb, 'ddim yn gwybod'. Croesawodd sefydliadau'r sector preifat a phroffesiynol, sawl awdurdod cynllunio lleol a sefydliadau sydd â diddordeb mewn darparu tai y cynigion hyn, gan geisio telerau hirach ar gyfer tai dros dro. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod rhywfaint o gonsensws ar draws y sector cyhoeddus nad oedd y ddarpariaeth 12 mis bresennol yn ddigonol i gyfiawnhau'r gofynion ariannol ac adnoddau i sicrhau tai fforddiadwy dros dro ar dir. Mynegwyd barn hefyd, a lle bydd cynlluniau o'r fath yn cael eu cyflwyno, y byddai'n annhebygol y byddai digon o amser i baratoi, cyflwyno ac ystyried cais mawr am ddatblygiad preswyl i gadw'r datblygiad y tu hwnt i'r cyfnod o 12 mis.

3.6.2 Tynnwyd sylw gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru a Chomisiwn Dylunio Cymru at bryderon ynghylch sefydlogrwydd tebygol tai fforddiadwy a ddatblygwyd o dan reoliadau datblygu a

ganiateir, a rhoddwyd enghreifftiau lle mae hyn wedi digwydd yn flaenorol. Codwyd pryderon ganddynt y byddai colli ymgynghoriad cyhoeddus yn niweidiol i ffydd y cyhoedd yn y system sy'n dilyn cynllun. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai rhoi caniatâd drwy reoliadau datblygu a ganiateir arwain at ddatblygiad nad oedd yn cyd-fynd ag egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy neu ddarparu amwynderau cyhoeddus, a fyddai fel arfer yn cael eu sicrhau drwy graffu ar gais cynllunio.

3.6.3 Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai rhoi caniatâd drwy reoliadau datblygu a ganiateir yn sefydlu egwyddor datblygiad preswyl lle nad yw ar hyn o bryd yn unol â pholisi cynllunio, gan ei gwneud hi'n anodd amddiffyn yn erbyn gwrthodiad dilynol.

3.6.4 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai defnyddio rheoliadau datblygu a ganiateir dros dro i gynhyrchu datblygiadau tai fel defnydd yn y cyfamser yn tynnu arian, ac felly'n tanseilio'r gwaith tuag at ddatblygu atebion tai mwy parhaol.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.5 Diolchwn i'r ymatebwyr am eu cyfraniadau ar y mater hwn. Mae'r ymatebion yn dangos bod angen ymchwil ychwanegol a dadansoddiad cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn cyd-fynd ag arfer gorau, ac y gellid cynnwys mesurau diogelwch addas i sicrhau nad yw egwyddorion cynllunio yn cael eu tanseilio'n anfwriadol. Bydd yr ymatebion a geir yn cael eu hystyried wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

3.6.6 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddull sy'n cael ei arwain gan gynllun, fel y nodir yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol gan sicrhau bod yr holl dai, boed yn barhaol neu dros dro, wedi'u hintegreiddio â strategaethau datblygu lleol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu lleoedd.

**Cwestiwn 35: Yn ogystal â rheolaethau ar ffenestri ystafelloedd cyfanheddol sy'n rhy agos i'w gilydd, pa gyfyngiadau eraill y dylai'r hawl datblygu a ganiateir ar gyfer defnydd yn y cyfamser fod yn ddarostyngedig iddynt? Rhowch eich rhesymau**

<u>Trosolwg</u>

3.6.7 Cyflwynodd yr ymatebwyr ystod eang o gyfyngiadau eraill y dylai rheoliadau datblygu a ganiateir fod yn ddarostyngedig iddynt yn y cyfamser. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth parcio ceir, maint lleiaf gardd, addasiadau i bobl anabl, graddfa a maint unedau, amwynder a mannau agored, agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus, datblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, dim ond i'w gyfyngu i'w ddefnyddio fel tai fforddiadwy, a chynaliadwyedd datblygu ymhlith eraill.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.8 Fel y nodwyd uchod, rydym o'r farn bod angen ymchwil ychwanegol a dadansoddiad cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn

gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd ag arfer gorau. Byddwn yn ystyried y sylwadau a geir fel rhan o'r gwaith hwnnw.

**Cwestiwn 36: A ydych chi'n credu na ddylai darpariaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gael ei chynnwys yn yr hawl datblygu a ganiateir newydd ar gyfer defnydd tai yn y cyfamser? Os na, pa ddull ar gyfer cyhoeddusrwydd neu ymgynghori â'r cyhoedd y dylid ei gynnwys? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 3 | 2 | 14 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 1 | 3 | 0 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 1 | 10 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 9 | 12 | 27 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 2 | 5 | 2 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 1 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **17** | **34** | **45** |
| **Canran** | **18** | **35** | **47** |

Trosolwg

3.6.9 Er bod cyfran sylweddol o ymatebwyr wedi nodi 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd dros draean o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylid dileu ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion datblygu tai a ddilynir drwy reoliadau datblygu a ganiateir. Fodd bynnag, nodwyd gan ymatebwyr bod ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn debygol o arwain at oedi wrth alluogi datblygiad hyd yn oed lle'r oedd safle yn amlwg yn addas ar gyfer defnydd o'r fath. Awgrymodd nifer o awdurdodau cynllunio lleol y gellid defnyddio proses ymgynghori cyn ymgeisio 28 diwrnod, fel sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer ceisiadau mawr.

3.6.10 Mynegodd Comisiwn Dylunio Cymru y farn bod peidio â chynnwys cymunedau mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.11 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod angen ymgynghori â'r cyhoedd cyn datblygiad o'r fath am amrywiaeth o resymau. Byddwn yn ystyried y sylwadau hyn fel rhan o sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd ag arfer gorau.

**Cwestiwn 37: A ddylai cynigion datblygu sy'n cydymffurfio â pholisïau 'safle eithriedig' gael eu cynnwys o fewn dosbarth hawl datblygu a ganiateir**

**newydd? Os na, pam na ddylid cynnwys polisïau o'r fath? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Dylent | Na ddylent | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 3 | 2 | 15 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 1 | 0 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 1 | 11 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 6 | 11 | 30 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 4 | 4 | 0 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **17** | **30** | **48** |
| **Canran** | **18** | **32** | **51** |

Trosolwg

3.6.12 Nid oedd ychydig o dan draean o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn gyda dros hanner yn ateb 'ddim yn gwybod'. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn ceisio mynd i'r afael â symptomau oedi mewn penderfyniadau cynllunio yn hytrach na'r achos, ac y byddai'n well gwneud ymdrech i sicrhau bod gan y gwasanaeth cynllunio adnoddau rhesymol a chyfyngiadau gormodol er mwyn gwneud penderfyniadau amserol.

3.6.13 Roedd rhai ymatebwyr a oedd â chyfrifoldeb am ddarparu tai yn gweld hyn fel cyfle i gynyddu'r ddarpariaeth yn gyflym. Fodd bynnag, dadleuodd nifer o ymatebwyr nad oedd cyfiawnhad dros ddatblygu anheddau 100% fforddiadwy ar safleoedd anghynaliadwy waeth beth fo'r angen am dai, yn enwedig gan fod safleoedd o'r fath yn debygol iawn o fod yng nghefn gwlad agored neu y tu hwnt i ffin yr anheddiad.

3.6.14 Nododd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys sawl awdurdod cynllunio lleol, nad oedd safleoedd eithriad wedi bod yn destun yr un lefel o asesiad â safleoedd tai a ddyrannwyd drwy broses y cynllun datblygu lleol, megis asesiadau effaith neu ymchwiliadau safle, a bod angen ystyried y materion hyn o hyd. Awgrymodd rhai y gallai cyflwyno proses dyrannu safleoedd eithriadol mewn cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar gyfer safleoedd sy'n union gerllaw ffiniau aneddiadau oresgyn hyn.

3.6.15 Nododd rhai ymatebwyr fod polisïau'r cynllun datblygu lleol ar faterion fel cynllun safle, dyluniad a seilwaith ecolegol yn amrywio'n sylweddol, a oedd yn tanseilio egwyddor caniatâd tybiedig cenedlaethol drwy reoliadau datblygu a ganiateir. Dywedasant hefyd y gellid goresgyn hyn, yn eu barn nhw, fodd bynnag, gyda gofyniad i gydymffurfio â chanllawiau cynllunio atodol.

3.6.16 Nododd nifer o ymatebwyr hefyd, gan gynnwys rhai awdurdodau cynllunio lleol, fod defnyddio rheoliadau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiadau o'r fath, heb alluogi cyfranogiad cymunedol, yn debygol o arwain at adwaith andwyol. Nododd

un awdurdod cynllunio lleol, er nad yw ymgysylltu â'r gymuned o reidrwydd yn arwain at ymatebion gwybodus, fod cymunedau o leiaf yn teimlo bod eu pryderon wedi cael eu hystyried. Felly roedd cymunedau'n fwy tebygol o dderbyn penderfyniadau yr oeddent yn anghytuno â nhw pe baent wedi'u grymuso i ymgysylltu.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.17 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol ac ystyrir bod angen ymchwil ychwanegol a dadansoddiad cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd ag arfer gorau.

**Cwestiwn 38: A ddylai cymeradwyo o flaen llaw fod yn broses dau gam lle mae'r cam cyntaf yn cynnwys cwmpasu'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chyflwyno? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Dylai | Na ddylai | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 3 | 1 | 15 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 4 | 0 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 5 | 6 | 3 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 12 | 7 | 29 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 7 | 2 | 0 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **34** | **16** | **49** |
| **Canran** | **34** | **16** | **49** |

Trosolwg

3.6.18 Yng nghyd-destun yr ymatebion i gwestiwn 37 a amlinellwyd uchod, lle nad oedd rheoliadau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiad preswyl ar safleoedd eithriad yn cael ei gefnogi'n gyffredinol, atebodd mwyafrif yr ymatebwyr 'dylai' neu 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn. Pe byddai rheoliadau datblygu a ganiateir o'r fath yn cael eu cyflwyno, ystyriwyd yn gyffredinol bod egwyddor gyffredinol proses gwmpasu dau gam yn briodol, ar yr amod nad oedd y broses yn feichus ac nad oedd yn cael ei defnyddio gan awdurdod cynllunio lleol fel dull o ohirio pwysau ar ystyriaeth ffurfiol o gynigion.

3.6.19 Ailadroddodd nifer o randdeiliad y farn bod cyflwyno rheoliadau datblygu a ganiateir o'r fath yn cael ei ystyried fel rhywbeth a fyddai'n dileu'r cyfle i gymunedau lleol ac aelodau ddweud eu dweud ar gynigion, gan gynnwys cymryd rhan mewn penderfyniadau ar gynlluniau a'u heffeithiau a allai greu pryder lleol gwirioneddol.

3.6.20 Mynegodd rhai ymatebwyr y farn bod proses gymeradwyo ymlaen llaw mewn perygl o danseilio'r dull cenedlaethol o greu lleoedd ac egwyddorion bioamrywiaeth, ac y dylid eithrio rhai dynodiadau tirwedd fel parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ac ardaloedd cadwraeth.

3.6.21 Nododd rhai awdurdodau cynllunio lleol y byddai cyflwyno proses gymeradwyo ymlaen llaw yn negyddu eu gallu i fynd ar drywydd neu amrywio cynigion ar gyfer Cytundeb Adran 106, a allai wneud safleoedd anaddas yn dderbyniol fel arall. Effaith cymeradwyaeth ymlaen llaw o'r fath fyddai datblygiad fel 'fait accompli'. Gofynnwyd hefyd, pe byddai'r broses gymeradwyo ymlaen llaw yn gyfwerth â gwaith ar gais cynllunio, a fyddai'r ffi am gymeradwyaeth ymlaen llaw yn cyfateb i'r ymrwymiad adnoddau.

3.6.22 Nododd un awdurdod cynllunio lleol fod methodoleg safleoedd ymgeisiol yn disgwyl cyflwyno cyfres gynhwysfawr o ddogfennau a asesir wedyn gan arbenigwyr fel rhan o'r broses o ystyried dyrannu. Nodwyd, erbyn i gynllun datblygu lleol gael ei fabwysiadu, y byddai angen diweddaru'r gwaith arolygu a'r adroddiadau. O'r herwydd, ystyrir y byddai budd delio â'r materion hyn drwy'r broses gymeradwyo ymlaen llaw yn gyfyngedig.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.23 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol heb gonsensws clir ac ystyrir bod angen ymchwil ychwanegol a dadansoddiad cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd ag arfer gorau.

**Cwestiwn 39: Pa wybodaeth y dylid ei chyflwyno yn rhan o gyflwyniad am gymeradwyaeth o flaen llaw (neu mewn proses cymeradwyo o flaen llaw dau gam, beth fyddai'r rhestr o faterion y byddai awdurdod cynllunio lleol yn dewis o'u plith wrth gwmpasu'r hyn y dylid ei gyflwyno yn ystod yr ail gam)? Eglurwch eich awgrymiadau.**

<u>Trosolwg</u>

3.6.24 Cyflwynwyd cyfanswm o 36 o ymatebion mewn perthynas â chwestiwn 39. Roedd hyn yn cynnwys 12 awdurdod cynllunio lleol o bob cwr o Gymru ynghyd ag amrywiol ddarparwyr tai cymdeithasol, sefydliadau a chynrychiolwyr o'r diwydiant. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Yn y cyfamser, ni ddylid caniatáu datblygiad ar gyfer tai.
- Bydd yn anodd llunio rhestr bendant o wybodaeth / materion ategol yn amrywio o safle i safle yn dibynnu ar gyd-destun y safle a chyfyngiadau lleol.
- Ni ddylai darparu tai fforddiadwy drechu ystyriaethau cynllunio eraill sy'n ymwneud â derbynioldeb safle o ran cynllunio.
- Pwyslais ar bwysigrwydd datganiad dylunio a mynediad.

- Dylai gwybodaeth amgylcheddol a gyflwynir fod yn berthnasol ac yn gymesur â'r risgiau amgylcheddol posibl sy'n berthnasol i'r cynllun, wedi'i llywio gan y gwarchodaeth a roddir i dderbynyddion o dan bolisi a deddfwriaeth genedlaethol berthnasol.
- Mae angen asesiad effaith treftadaeth / asesiad lleoliad, i gynnwys ystyriaeth o'r effaith ar ddynodiadau treftadaeth o lefel leol i lefel genedlaethol, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a pholisi.
- Dylid darparu manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r broses cyn-gymeradwyo fel bod barn y gymuned yn cael ei hystyried fel rhan o unrhyw broses cyn cymeradwyo. Mae cyfranogiad cymunedol yn bwysig.
- Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu defnyddio pynciau cwmpasu'r asesiad o'r effaith amgylcheddol fel model. Mae'n bwysig bod pynciau fel archaeoleg a'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu cynnwys.
- Dylid cyflwyno diwyg manwl o'r cynllun, gan gynnwys cynllun safle, gweddluniau a chroestoriadau sy'n dangos lefelau.
- Pryderon na fydd y broses yn cyflymu'r ddarpariaeth ond y bydd yn arwain at fwy o gymhlethdod, dryswch ac ansicrwydd gyda datblygwyr.
- Gallai'r dull dau gam fod yn debyg i ymgynghoriad cyn ymgeisio a chais cynllunio llawn neu farn gwmpasu ac asesiad o'r effaith amgylcheddol. Byddai'r cam cyntaf yn nodi unrhyw faterion (megis mynediad, parcio, bioamrywiaeth, ac ati) a byddai'r ail gam yn cynnwys cyflwyno'r manylion hynny.
- Os caiff safleoedd eu hasesu fel rhan o baratoi'r cynllun datblygu lleol, byddai hyn yn galluogi asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn seiliedig ar dystiolaeth a rhagamcanion yn lle gorfod asesu pob safle yn unigol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Mae'r angen am gytundeb adran 106 yn un o'r pethau sy'n arafu'r broses o ddarparu tai fforddiadwy yn sylweddol. Pe byddai modd cytuno ar ofynion adran 106 yng ngham 1, gellid cyflymu hyn.
- Dylid nodi cyfyngiadau sylfaenol ar safle fel llifogydd, halogiad ac ansefydlogrwydd tir cyn cyflwyno hysbysiad ymlaen llaw. Mae hyn yn galluogi'r datblygwr i ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol gyda'u cyflwyniad cychwynnol.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.25 Mae'n werth nodi bod rhai ymatebwyr wedi gwrthod egwyddor y dull cymeradwyaeth ymlaen llaw / dull dwy haen, gan nodi bod y broses gynllunio wedi dod yn llawer mwy cymhleth oherwydd haenau ychwanegol o bolisi a rheoleiddio. Yn eu barn nhw, ni fydd y broses hon yn cyflymu'r ddarpariaeth yn sylweddol ond bydd yn arwain at fwy o gymhlethdod a dryswch, gan greu ansicrwydd gyda datblygwyr.

3.6.26 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos nad oes cefnogaeth gyffredinol i system gymeradwyaeth ymlaen llaw, na chonsensws ynghylch yr wybodaeth y byddai ei hangen i weithredu'n effeithiol o dan system o'r fath. Mae'r ymgynghoriad wedi codi rhai ystyriaethau pwysig y mae angen eu harchwilio

ymhellach cyn gwneud unrhyw newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud â defnydd yn y cyfamser.

**Cwestiwn 40: Sut dylai lefel yr wybodaeth a gyflwynir gael ei chadw'n gymesur â graddfa a chymhlethdod y datblygiad a bod yn ofyniad llai na hwnnw sy'n gysylltiedig â chais cynllunio? Eglurwch eich awgrymiadau.**

Trosolwg

3.6.27 Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau, o'r rhai nad ydynt yn cefnogi rheoliadau datblygu a ganiateir a/neu system gymeradwyaeth ymlaen llaw, i'r rhai a gredai y gallai roi cyfle i rymuso awdurdod cynllunio lleol yn eu proses gwneud penderfyniadau.

3.6.28 Roedd consensws eang bod lefel yr wybodaeth y mae ei hangen i gefnogi datblygiad o'r fath yn amgylchiadol iawn ac na fyddai'n bosibl diffinio rhestr a fyddai'n gwasanaethu'n gyson ar sail genedlaethol. Mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai proses y cynllun datblygu lleol a'r broses gymeradwyaeth ymlaen llaw rhyngddynt allu darparu'r holl ddogfennau y mae eu hangen i sicrhau bod cynllun y safle, ei ddyluniad, a'i broses gadw / darparu seilwaith gwyrdd yn cael eu hystyried mor drylwyr ag y byddent drwy'r broses ymgeisio am ganiatâd cynllunio. Roedd rhai o'r farn y byddai hyn yn gofyn am fwy o fuddsoddiad mewn paratoi cynllun datblygu lleol i alluogi hyn.

3.6.29 Roedd rhai awdurdodau cynllunio lleol o'r farn, pe byddai safleoedd tai fforddiadwy / safleoedd eithriad yn cael eu nodi a'u hasesu fel rhan o broses y cynllun datblygu lleol, byddai'r ymgynghoriad a'r cyfyngiadau a nodwyd yn diffinio eu haddasrwydd ar unwaith. Gellid rhoi'r broses ar waith ar gam y cynllun datblygu drwy ddefnyddio cynlluniau meistr, briffiau safle neu godau dylunio. Gallai cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw wedi hynny fod yn gymharol syml gan fod y datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor, ar yr amod bod y manylion sy'n weddill yn cael eu cymeradwyo.

3.6.30 Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygwyr i gyflwyno ceisiadau o ansawdd uchel gyda'r holl fanylion perthnasol, ond fe wnaethant hefyd dynnu sylw at bryderon y gallai penderfyniadau fod yn destun her gyfreithiol pe na châi pob mater ei ystyried yn briodol.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.31 Un thema gyffredin a gododd oedd pryderon y gallai lleihau'r gofynion sy'n gysylltiedig ag asesu cynigion datblygu arwain at ganlyniadau anfwriadol. Mae lefel yr wybodaeth y mae ei hangen ar hyn o bryd yn sicrhau bod effaith cynigion datblygu yn cael ei hasesu'n llawn. Mynegodd ymatebwyr y gallai hepgor manylion arwain at ganlyniadau creu lleoedd gwaeth a/neu fwy o risg o niwed i'r amgylchedd. Nodwyd gan rai ymatebwyr y byddai angen eithriadau sy'n ymwneud ag ardaloedd sy'n arbennig o sensitif pe byddai'r rheoliadau datblygu a ganiateir yn cael eu sefydlu'n ymarferol.

3.6.32 I grynhoi, nid oedd consensws ymhlith yr ymatebwyr o ran sut y dylid cadw lefel yr wybodaeth yn gymesur â graddfa a chymhlethdod y datblygiad, nac yn fwy cyffredinol a ddylai'r gofynion fod yn llai na'r rhai sy'n gysylltiedig â chais cynllunio. Ystyrir ei bod yn angenrheidiol archwilio rhai o'r materion a godwyd yn fanylach er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o sut y gallai'r ffactorau hyn effeithio ar effeithiolrwydd system newydd sy'n cael ei rhoi ar waith yn ymarferol.

**Cwestiwn 41: A oes buddion yn gysylltiedig â chyfyngu ar y mathau o dai y gellir eu hadeiladu o dan yr hawliau datblygu a ganiateir? Os oes, esboniwch ba fuddion a ddisgwylir. Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Dylai | Na ddylai | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 3 | 2 | 14 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 1 | 2 | 0 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 4 | 5 | 3 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 6 | 10 | 27 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 4 | 3 | 1 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 3 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **21** | **23** | **45** |
| **Canran** | **24** | **26** | **51** |

Trosolwg

3.6.33 Nid oedd consensws cyffredinol o blaid nac yn erbyn y cwestiwn hwn, er bod dros hanner yr ymatebwyr wedi nodi 'ddim yn gwybod'. Nododd rhai ymatebwyr y gallai defnyddio llyfr patrwm ar gyfer mathau o ddatblygiadau symleiddio a chyflymu'r broses gynllunio ar gyfer tai fforddiadwy, a darparu rheolaeth a chysondeb o ran safonau dylunio a gofod. Roedd eraill o'r farn y byddai'r gofyniad i gydymffurfio â chod dylunio yn atal darpariaeth tai fforddiadwy is-safonol. Pe byddai dull llyfr patrwm yn cael ei fabwysiadu, byddai angen iddo ystyried y cymysgedd tai priodol i wasanaethu'r gymuned, gan gynnwys tai ar gyfer unigolion sengl ac ar gyfer pobl hŷn.

3.6.34 Nid oedd awdurdodau cynllunio lleol yn cefnogi'r fethodoleg llyfr patrwm yn gyson ar gyfer mathau o ddatblygiad o'r fath. Er eu bod yn cefnogi'r egwyddor, nododd sawl un y byddai angen i batrymau o'r fath fod, neu fod angen eu diwygio i fod yn gydnaws â chymeriad lleol ac arddulliau a gofynion dylunio.

3.6.35 Nododd sawl ymatebydd y gallai mwy o reolaeth a chysondeb alluogi manylebau dylunio carbon isel ac o ansawdd uchel, safonau gofod gwell ac atal amodau byw is-safonol.

3.6.36 Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen datblygu dylunio trefol, creu lleoedd a phensaernïaeth fel rhan o'r broses ddylunio, a'u hasesu fel rhan o'r broses

gynllunio, yn enwedig os ydym am gyflawni'r ansawdd a'r cysylltedd lleoliad a safle sy'n benodol mewn polisi a deddfwriaeth genedlaethol, ac efallai na fyddai dull llyfr patrwm yn cyflawni hyn.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.37 Gellid mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan ymatebwyr drwy fesurau syml, megis cael gwared ar rai rheoliadau datblygu a ganiateir mewn meysydd penodol o sensitifrwydd hanesyddol neu amgylcheddol. Fodd bynnag, mae angen ystyriaeth bellach ar eraill er mwyn cael gwell dealltwriaeth. Mae'r ymgynghoriad wedi codi rhai materion pwysig y mae angen eu harchwilio ymhellach cyn gwneud unrhyw newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud â defnydd yn y cyfamser.

**Cwestiwn 42: A fydd defnyddio hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer darparu safleoedd tai fforddiadwy yn arbed amser a chostau o gymharu â chyflwyno cais cynllunio ar gyfer yr un datblygiad? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Bydd | Na fydd | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 4 | 1 | 13 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 1 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 2 | 9 | 3 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 11 | 8 | 27 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 5 | 2 | 1 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 1 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **25** | **22** | **47** |
| **Canran** | **27** | **23** | **50** |

Trosolwg

3.6.38 Nid oedd consensws mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhai a gefnogodd y cynnig o'r farn y gallai defnyddio rheoliadau datblygu a ganiateir ar gyfer tai fforddiadwy gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau, rhoi mwy o sicrwydd ynghylch datblygu, a thrwy hynny leihau risg. Roedd pryderon hefyd y gallai proses gymeradwyo ymlaen llaw ddod yr un mor ddwys o ran amser ac adnoddau â chais llawn.

3.6.39 Ailadroddwyd pryderon ynghylch y diffyg democrataidd canfyddedig sy'n deillio o ddefnyddio rheoliadau datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy. Ailadroddwyd hefyd bryderon ynghylch y risg o safonau is o ran dylunio ac amwynder. Roedd rhai o'r farn, lle byddai hyn yn arwain at ganlyniadau anffafriol, y byddai'n cymryd cyfnod hir i weithredu cywiriad neu adferiad, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n debygol y byddai adeiladau o'r fath eisoes yn cael eu meddiannu.

3.6.40 At ei gilydd, roedd nifer debyg o ymatebwyr yn cytuno ac yn anghytuno y byddai rheoliadau datblygu a ganiateir ar gyfer darparu safleoedd tai fforddiadwy yn arwain at arbedion amser a chost. Atebodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio lleol 'na fydd'.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.6.41 Mae'n amlwg o'r crynodeb ystadegol nad oes consensws ymhlith yr ymatebwyr ynghylch a fyddai hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy yn arwain at arbedion amser a chost, o'i gymharu â chymryd yr un datblygiad trwy gyflwyno cais cynllunio.

3.6.42 Er y gallai hawliau datblygu a ganiateir, yn ddamcaniaethol, arwain at arbedion cost ac amser ar gyfer darparu tai fforddiadwy, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gytundeb y byddai hyn yn wir yn ymarferol nac yn ddymunol. Yn y pen draw, byddai graddfa'r cyflymder a'r arbedion cost yn dibynnu ar ofynion, manylder a gweithrediad unrhyw ddarpariaethau a gyflwynir. Yn yr un modd, o ystyried y pryderon a godwyd, mae'n bosibl y gallai ansawdd canlyniadau creu lleoedd ddirywio yn gymesur â graddfa'r dadreoleiddio a gyflwynir trwy reoliadau datblygu a ganiateir.

3.6.43 Ystyrir bod angen ymchwiliad pellach i'r pryderon yr amlinellwyd uchod. Bydd hyn yn llywio dealltwriaeth fwy trylwyr o ran gwybod a fyddai dadreoleiddio rhai mathau o ddatblygiad yn arwain at aliniad annerbyniol â'r egwyddorion creu lleoedd sy'n sail i system gynllunio Cymru.

**Cwestiwn 43: A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â thai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser nad ydynt yn cael sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?**

<u>Crynodeb ystadegol</u>

3.6.44 Cyflwynwyd cyfanswm o 37 o ymatebion mewn perthynas â chwestiwn 43. Roedd hyn yn cynnwys wyth gan awdurdodau cynllunio lleol, yn ogystal â darparwyr tai cymdeithasol, sefydliadau a chynrychiolwyr y diwydiant.

<u>Trosolwg</u>

3.6.45 Codwyd ystod eang o faterion eraill, a grynhoir isod:

- Dylai cartrefi fforddiadwy gael rheoliadau datblygu a ganiateir sy'n galluogi gosod gwefrwyr cerbydau trydan ar wedd flaen adeiladau.
- Pryder ynghylch yr effaith ar weithrediadau ffermio cyfagos.
- Pryder y gallai fod effeithiau negyddol ar yr iaith a diwylliant Cymru heb bolisi gosod lleol.
- Pryder y gallai rheoliadau datblygu a ganiateir osgoi ymgynghori a chraffu cynnar y dibynnir arnynt i asesu risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â

datblygiad a diffyg y gallu i wrthwynebu neu ofyn am liniaru ar gyfer datblygiad sy'n peri risgiau gweithredol neu ddiogelwch.

- Byddai cefnogaeth gynnar i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chynghorau yn gwella dyluniad eu cynlluniau.
- Dylid ystyried Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ar y cyd â'r adolygiad hwn, a dylid adolygu'r broses bresennol ar gyfer datblygu a diweddaru cynlluniau datblygu lleol yn gyson er mwyn sicrhau bod anghenion tai yn y dyfodol yn cael eu diwallu.
- Mae'r anallu i fynnu rhwymedigaethau cynllunio yn fater mawr nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i ystyried yn briodol, ac mae'n debygol o arwain at ddatblygiadau nad ydynt wedi'u hintegreiddio'n iawn na'u gwasanaethu gan gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol.
- Pryder na ddylai gwarchodaeth amgylchedd hanesyddol Cymru gael ei gwanhau trwy dynnu datblygiadau tai yn ôl o'r broses gynllunio, gan fod y rhain ymhlith y dosbarthiadau datblygu sydd â'r effaith fwyaf ar olion archaeolegol a chymeriad tirweddau / aneddiadau hanesyddol.
- Mae'r cynigion yn dileu gallu awdurdodau cynllunio lleol i ddiogelu defnydd gwerth is, gan gynnwys defnydd cymunedol, mannau agored, a safleoedd diwydiannol.
- Mae defnyddio gorchmynion datblygu lleol a briffiau datblygu yn fecanweithiau pellach a allai helpu i hyrwyddo darparu tai.
- Mae'n hanfodol adeiladu lle mae trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith yn bodoli.
- Dylai datblygiadau ddarparu safonau byw a gofynion sylfaenol ar gyfer mannau cysgu, bwyta, coginio a glanweithdra ar wahân, yn ogystal â lle awyr agored a reolir ar gyfer hamdden.
- Dim ond os oes cynllun datblygu lleol cyfoes sydd wedi bod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd, os yw'r safle dan sylw wedi'i ddyrannu, ac os oes polisi gosod lleol ar waith i ddelio ag iaith ddiwylliannol y dylai rheoliadau datblygu a ganiateir fod yn berthnasol.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried caniatáu trosi adeiladau amaethyddol ac adeiladau coedwigaeth i ddefnydd preswyl o dan ddatblygiad a ganiateir i gyfrannu at dai fforddiadwy.

3.6.46 Mae'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear wedi cynghori y gallai datblygiadau ar safleoedd niwclear, neu yng nghyffiniau safleoedd niwclear, gael effaith ar drefniadau cynllunio brys manwl neu beri peryglon allanol i safleoedd niwclear. Felly, mae'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear yn cynnig nad yw defnydd yn y cyfamser o fewn parth cynllunio manwl ar gyfer argyfyngau yn destun datblygiad a ganiateir ond yn dilyn y weithdrefn gynllunio safonol.

3.6.47 Mae Shelter Cymru yn gofyn am ganllawiau clir ynghylch y math o lety y gellir ei ddarparu. Dylai fod o ansawdd uchel ac yn addas i ddiwallu anghenion trigolion. Y mae hefyd yn annog monitro agos i sefydlu'r effaith ar ganlyniadau digartrefedd.

### Ymateb y Llywodraeth

3.6.48 Cawsom ystod eang o ymatebion defnyddiol i'r cwestiwn hwn, yn cynrychioli barn ystod eang o randdeiliaid. O ystyried cwmpas y materion a'r awgrymiadau a

godwyd, ystyrir ei bod yn angenrheidiol archwilio’r rhain yn fanylach cyn nodi unrhyw newidiadau arfaethedig i’r system bresennol.

## 3.7 Diffiniad o ‘ddatblygiad mawr’

**Cwestiwn 44: A ydych chi’n cytuno y dylai nifer yr anheddau ym mharagraff (c)(i) y diffiniad o ‘ddatblygiad mawr’ gynyddu i 25? Rhowch eich rhesymau**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 2 | 2 | 16 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 1 | 2 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 12 | 0 | 1 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 15 | 16 | 18 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 5 | 2 | 3 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **38** | **22** | **41** |
| **Canran** | **38** | **22** | **41** |

Trosolwg

3.7.1 Cafwyd ymateb cymysg i’r cynnig hwn ar draws pob sector. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Gallai fod effaith anghymesur ar ddatblygiad preswyl mewn ardaloedd gwledig, o’i gymharu ag ardaloedd trefol.
- Pryder y gallai’r cynnig gael effaith negyddol ar leoedd sydd â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd.
- Dylid cynyddu’r diffiniad o 10 i 50 o anheddau.
- Gallai arwain at ostyngiad yn y pwysau ar adnoddau.

3.7.2 Cefnogodd 12 allan o 14 awdurdod cynllunio lleol y cynnig i ddiwygio’r diffiniad o ‘ddatblygiad mawr’ i 25 o anheddau. Mynegodd ymatebwyr y gallai’r cynnig helpu safleoedd lle’r oedd hyfywedd yn heriol, yn ogystal â chael ei groesawu gan rai awdurdodau mwy trefol. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd newid yn effeithio ar bolisïau cynllun datblygu lleol gan ddefnyddio’r diffiniad hwn o ‘ddatblygiad mawr’, yn ogystal â’r gofynion ar gyfer datganiadau gwybodaeth ddaearyddol ac ynni ategol ar gyfer datblygiadau mawr.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.7.3 Er gwaethaf yr amrywiaeth o ymatebion i’r ymgynghoriad, rydym o’r farn bod y newid hwn yn hanfodol i greu system gynllunio fwy cymesur ac effeithlon. Mae’r trothwyon presennol (10 neu ragor o anheddau fel datblygiad mawr) yn gosod gofynion gweithdrefnol sylweddol ar safleoedd bach a chanolig, gan greu oedi a

chostau. Mae codi'r trothwy i 25 o anheddau yn cyd-fynd â strategaeth ehangach y llywodraeth i arallgyfeirio'r farchnad dai a chyflymu'r broses o gyflawni targedau tai Llywodraeth Cymru.

3.7.4 Rydym yn cydnabod yr amrywiad yn y safbwyntiau a ddarparwyd gan ymatebwyr. Drwy leihau beichiau diangen ar ddatblygiadau cymedrol wrth gynnal gwaith craffu trylwyr ar gyfer prosiectau mwy, fodd bynnag, mae'r newid yn cefnogi dull graddol o reoleiddio cynllunio, yn gwella sicrwydd i ddatblygwyr, ac yn helpu i ddatgloi safleoedd sydd wedi'u hatal.

**Cwestiwn 45: Pe byddai nifer yr anheddau'n newid, fel yr amlinellir yng nghwestiwn 9.1, a ddylai'r arwynebedd safle ym mharagraff (c)(ii) newid hefyd? Rhowch eich rhesymau, ac os ydych yn cytuno, nodwch beth fyddai'r arwynebedd safle priodol.**

Crynodeb ystadegol

| Sefydliad | Dylai | Na ddylai | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Busnes / ymgynghorydd | 4 | 2 | 14 |
| Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall | 2 | 1 | 1 |
| Awdurdod cynllunio lleol | 14 | 0 | 0 |
| Grŵp neu unigolyn arall (heb ei restru uchod) | 15 | 10 | 22 |
| Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant | 5 | 1 | 1 |
| Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol | 2 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **42** | **15** | **39** |
| **Canran** | **44** | **16** | **41** |

Trosolwg

3.7.5 Cefnogwyd y cynnig hwn gan fwyafrif yr awdurdodau cynllunio lleol. Roedd anghysondeb, fodd bynnag, yn arwynebedd y safle awgrymedig, yn amrywio o un i ddwy hectar. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i dybiaethau anghyson ynghylch nifer yr anheddau fesul hectar, yn amrywio o 20 i 50, a chanfyddiad o'r angen am gywerthedd. Un hectar oedd y cyfartaledd moddol ar gyfer ymatebion yn cefnogi'r cynnig.

- Dylai newidiadau i drothwy arwynebedd y safle fod yn gymesur â nifer yr anheddau.
- Angen sicrhau bod digon o le ar gael ar gyfer preifatrwydd, lle agored a hamdden, yn ogystal ag osgoi gorlenwi.
- Awgrym y dylid defnyddio dwysedd fel meincnod yn lle arwynebedd y safle. Byddai hynny wedyn yn gymesur ag ardaloedd gwledig a threfol.

3.7.6 Roedd y rhai nad oeddent yn cefnogi'r gwelliant hwn yn ei wrthwynebu am yr un rheswm â'r newid yn nifer yr anheddau yng nghwestiwn 44.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.7.7 Fel gyda’r diwygiad arfaethedig yng nghwestiwn 44, ystyrir y bydd y newid hwn yn creu proses fwy cymesur ac effeithlon ar gyfer ceisiadau. Mae’r trothwyon presennol yn gosod gofynion gweithdrefnol sylweddol ar safleoedd bach a chanolig, gan greu oedi a chostau. Byddai codi trothwy arwynebedd y safle yn cyd-fynd â strategaeth ehangach y llywodraeth i arallgyfeirio’r farchnad dai a chyflymu cyflawni targedau tai Llywodraeth Cymru.

3.7.8 Fodd bynnag, o ystyried cwmpas y materion a’r awgrymiadau a godwyd, ystyrir ei bod yn angenrheidiol archwilio’r cynigion yn fanylach cyn gwneud unrhyw newidiadau i’r system bresennol, gan nad yw’r ymgynghoriad wedi arwain at arwydd clir o sut y dylid cyfrifo trothwy arwynebedd y safle ar gyfer datblygiad mawr, yn ôl dwysedd neu ffigur sefydlog.

## 3.8 Digolledu am ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol

**Cwestiwn 46: A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â digolledu am ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol nad ydynt yn cael sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?**

<u>Trosolwg</u>

3.8.1 Ychydig iawn o sylwadau sylweddol a gynigiwyd i’r cwestiwn hwn, ac roeddent yn ymhelaethu’n bennaf ar faterion a godwyd mewn cwestiynau ymgynghori eraill, neu nad oeddent yn berthnasol i’r ymgynghoriad.

3.8.2 Mynegwyd y safbwyntiau canlynol gan ymatebwyr unigol nad ydym yn eu hystyried yn berthnasol i’r materion a godwyd, neu’n ymestyn y tu hwnt i gwmpas yr ymarfer ymgynghori hwn:

- Mae defnyddio ac ehangu hawliau datblygu a ganiateir yn erydu craffu a chyfranogiad cymunedol mewn materion cynllunio (lle mae hyn yn berthnasol i gwestiynau penodol, mae wedi cael sylw uchod).
- Dylid ystyried ehangu hawliau datblygu a ganiateir i alluogi adeiladu annedd newydd.
- Dylid darparu grantiau ar gyfer parcio oddi ar y ffordd.
- Dylai adeiladu anheddau unigol mwy cynaliadwy fod yn haws.
- Dylid ehangu datblygiad a ganiateir ar gyfer anheddau sydd eisoes yn bodoli.
- Dylid galluogi mwy o ddatblygiad a ganiateir, ‘gyda’r opsiwn ar gyfer cynllunio cyflym ac ymgynghoriadau cyn cynllunio’.
- Dylid ystyried argymhellion y tasglu tai fforddiadwy yn llawn.
- Cais i nodi cyngor safonol proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynghylch prynu gorfodol a digolledu statudol.

3.8.3 Cododd un o'r ymatebwyr y mater y gallai cyfarwyddiadau erthygl 4(1) hŷn barhau i wneud awdurdod cynllunio lleol yn atebol i dalu iawndal lle gwrthodir caniatâd, a dylid diwygio deddfwriaeth i atal hyn.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.8.4 Nid ydym yn cytuno y dylid eithrio cyfarwyddiadau erthygl 4(1) hanesyddol rhag digolledu. Os yw awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu cadw cyfarwyddyd, ac yn gwrthod caniatâd o ganlyniad, mae'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwnnw, sy'n amddifadu unigolyn o ganiatâd y byddai eraill yn cael budd ohono. Felly, ystyrir y dylai'r awdurdod cynllunio lleol barhau i fod yn atebol am ddigolledu unigolion mewn amgylchiadau o'r fath.

3.8.5 Nodwn y sylw ynghylch argymhellion y tasglu tai fforddiadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr holl argymhellion, a chadeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai gyfarfodydd Grŵp Gweithredu Argymhellion y Tasglu ym mis Gorffennaf a mis Medi 2025.

3.8.6 O ran y sylwadau a godwyd mewn perthynas â datblygu a ganiateir 'carlam', mae hyn yn ymddangos yn gamddealltwriaeth o egwyddor hawliau datblygu a ganiateir, sy'n dileu'r angen am gais cynllunio. Er y byddai'n bosibl i awdurdod cynllunio lleol gynnig cyngor amserol ar hawliau datblygu a ganiateir, nid yw hon yn swyddogaeth statudol, ac nid ydym yn ystyried y dylai fod ychwaith. Mae'r cyfrifoldeb ar y datblygwr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolaethau priodol ar gyfer datblygiad a ganiateir.

3.8.7 Rydym o'r farn y dylid bwrw ymlaen i weithredu newidiadau i reoliadau digolledu fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori fel rhan o'r cam cynta o weithredu.

## 3.9 Ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg

**Cwestiwn 47: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion uchod ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**A ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**A ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

**Cwestiwn 48: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r *cynigion* er mwyn sicrhau:**

- **eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac**
- **nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Trosolwg

3.9.1 Roedd sawl ymatebydd o'r farn ei bod yn hanfodol bod cynllunio a chreu lleoedd yn annog ffyniant y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg.

3.9.2 Mae rhai ymatebwyr yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cryfhau rheolaeth gynllunio dros ddatblygiadau, yn enwedig ar gyfer tai a chyflogaeth, er mwyn sicrhau craffu priodol ar effeithiau andwyol posibl datblygiadau o'r fath ar y Gymraeg.

3.9.3 Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg fod yn rhan o'r gwelliannau arfaethedig hyn. O ran y cynigion mewn perthynas â thai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser, mae'r ymatebwyr yn ystyried bod cyfle i ddatblygu polisi cynllunio sy'n diwallu'r angen am dai fforddiadwy wrth warchod a hyrwyddo'r Gymraeg.

3.9.4 Os caiff y newidiadau eu gweithredu, dylid ystyried canllawiau ychwanegol ar gyfer asesiadau effaith ar y Gymraeg i ategu'r gwelliannau tai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser.

3.9.5 Mae ymatebwyr o'r farn y dylai asesiadau'r Gymraeg gael eu cynnal gan unigolyn cymwys sydd â phrofiad o gynllunio ar gyfer y Gymraeg. Awgrymwyd y dylid rhoi hyfforddiant a chymwysterau i awdurdodau cynllunio lleol mewn ardaloedd lle mae sgiliau Cymraeg yn uwch i wneud yr asesiadau hyn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai hyn fod yn ofyniad fel rhan o unrhyw broses gymeradwyo ymlaen llaw.

3.9.6 Awgrymodd yr ymatebwyr fod angen diwydrwydd dyladwy ar gyfer tai fforddiadwy i sicrhau bod datblygiadau yn yr ardaloedd Cymraeg yn cael eu dyrannu i siaradwyr Cymraeg sydd angen tai cymdeithasol a fforddiadwy. Dylid gosod y cartrefi hyn drwy bolisïau a chofrestrau dyrannu tai cyffredin, sy'n dangos yr angen am dai cymdeithasol ymhlith siaradwyr Cymraeg yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg.

3.9.7 Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am arwyddion dwyieithog a deunyddiau sy'n wynebu'r defnyddiwr ar gyfer gwefru cerbydau trydan. Argymhellir cydweithio rhwng awdurdodau cynllunio, gweithredwyr pwyntiau gwefru, a Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu canllawiau ymarferol a chynhwysol.

3.9.8 Roedd pwyslais ar yr angen am bolisi a chanllawiau cliriach ar safleoedd eithriad o ran maint, graddfa, lleoliad ac effaith ar y Gymraeg.

3.9.9 Mynegodd rhai ymatebwyr y farn ei bod hi'n bwysig gwarchod cymunedau gwledig bach rhag gorddatblygiad, yn enwedig os yw hyn yn gwanhau'r Gymraeg. Mae angen ystyried y diffiniad o 'ddatblygiadau mawr' mewn ardaloedd gwledig.

3.9.10 Effeithiau cadarnhaol y cynigion

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynigion, yn enwedig y rhai ar gyfer meysydd gwersylla, arwain at fwy o ymweliadau â Chymru, a allai arwain at fwy

o sylw i ddiwylliant ac iaith Cymru. Roeddent o’r farn y gallai’r newidiadau hyn hefyd ddarparu cyfleoedd i drigolion lleol ddefnyddio’r Gymraeg a mwy o siaradwyr Cymraeg.
- Roedd rhai ymatebwyr o’r farn na ddylid ystyried tai fforddiadwy yn risg i’r Gymraeg, a bod yn rhaid iddynt fod yn seiliedig ar angen lleol. Roeddent o’r farn y dylai ddiwallu galw sydd eisoes yn bodoli yn y gymuned ac felly’n cynnwys teuluoedd sy’n siarad Cymraeg.

3.9.11 <u>Effeithiau negyddol y cynigion</u>

- Mynegodd y tri pharc cenedlaethol, a Tirweddau Cymru, y farn y byddai newidiadau arfaethedig i ‘ddefnydd yn y cyfamser’ yn ei gwneud hi’n anoddach i awdurdodau cynllunio lleol ystyried materion y Gymraeg sy’n deillio o ddatblygiad o’r fath. Byddai lleihau’r gallu i ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer datblygiad o’r fath hefyd yn arwain at lai o gyllid yn cael ei neilltuo i addysg Gymraeg.
- Nododd ymatebwyr bryder bod llai o ymgynghori yn peri risg i siaradwyr Cymraeg gael eu heithrio, felly dylai dadansoddiad effaith ar y Gymraeg fod yn ofynnol fel rhan o’r broses gymeradwyo ymlaen llaw lle byddai mewnbwn cyhoeddus yn digwydd fel arall.

**Ymateb y Llywodraeth**

3.9.12 Roedd mwyafrif yr ymatebion i’r cwestiwn hwn yn ymwneud â’r cynigion mewn perthynas â ‘thai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser’. Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg mewn dogfennau canllaw a allai gefnogi’r newidiadau arfaethedig pe baent yn dod i rym.

3.9.13 Byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio canllawiau i sicrhau arfer gorau wrth ddefnyddio’r Gymraeg er mwyn ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill wrth weithredu’r cynigion a ddatblygwyd, a hefyd wrth gasglu tystiolaeth bellach ar gyfer cynigion eraill.

## 3.10 Ystyriaethau cyffredinol

**Cwestiwn 49: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw’n benodol, gallwch wneud hynny yma:**

3.10.1 Cododd sawl ymateb i’r cwestiwn hwn yr angen i ystyried hawliau datblygu a ganiateir pellach o dan sawl amgylchiad gwahanol nad ydynt wedi’u hystyried yn yr ymgynghoriad hwn.

3.10.2 Mae safbwyntiau perthnasol i’r ymgynghoriad a fynegwyd mewn ymateb i’r cwestiwn hwn, ac nad ydynt wedi’u mynegi mewn mannau eraill yn yr ymgynghoriad, yn cynnwys y canlynol:

**Cyfathrebu**

- Dylai'r gorchymyn datblygu cyffredinol a ganiateir wedi'i ddiweddaru fod ar gael yn ei gyfanrwydd, er hwylustod cyfeirio ato.

- Mae angen hyrwyddo newidiadau'n gyhoeddus er mwyn sicrhau bod awdurdodau a datblygwyr yn eu defnyddio'n gyson.

**Incwm a gweinyddu**

- Mae'r ffi am gymeradwyaeth ymlaen llaw yn rhy isel. Mae pryder ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol i ymdrin â cheisiadau o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i hawliau datblygu a ganiateir.

- Mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn ceisio sicrwydd bod y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau datblygu a ganiateir wedi cael eu hystyried drwy asesiadau effaith statudol, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Gofynnir am gyhoeddi'r asesiadau effaith hyn.

**Pryderon Tai**

- Bydd defnyddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar gyfer tai fforddiadwy yn lleihau'r incwm ariannol o ffioedd cynllunio i rai awdurdodau, gan mai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yw un o'r prif ffynonellau incwm.

- Bydd cyflwyno rheoliadau datblygu a ganiateir ar gyfer tai yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu cartrefi o bob math y mae eu hangen yn fawr. Fodd bynnag, mae diweddariad (ac felly llwyddiant) unrhyw ddarpariaethau o'r fath yn ddibynnol iawn ar y rheoliadau datblygu a ganiateir sy'n cynnig budd ac effeithlonrwydd sylweddol y tu hwnt i'r broses ymgeisio am gynllunio lawn. Dim ond os cymerir dull 'ysgafn' gan gadw i'r lleiafswm o gyfyngiadau ac amodau o ran unrhyw reoliadau datblygu a ganiateir a gyflwynir y gellir cyflawni hyn.

- Datblygiad a ganiateir ar gyfer ffyrdd osgoi tai cyfraniadau Adran 106 a'r ardoll seilwaith cymunedol. Mae ymchwil y Senedd yn argymell ardoll seilwaith i osgoi gorlwytho gwasanaethau cyhoeddus.

**Pryderon ynghylch y Gymraeg**

- Nododd Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref (Chwefror 2025) sawl argymhelliad mewn perthynas â thai, a phwysleisiwyd y gallai math a chymysgedd y tai o fewn ceisiadau cynllunio gael effaith ar y Gymraeg. Dylid ystyried yr argymhellion hyn os caiff y cynigion ar gyfer tai fforddiadwy a defnydd yn y cyfamser eu datblygu.

- Mae'n ymddangos bod y cynigion mewn perthynas â hawliau datblygu a gynlluniwyd ar safleoedd a neilltuwyd, a hyd yn oed safleoedd eithriadau, yn

groes i'r argymhellion hyn ac yn gwaethygu gallu awdurdod cynllunio lleol i ystyried materion y Gymraeg. Mae ymatebwyr yn ystyried bod hwn yn fater arwyddocaol nad yw wedi'i asesu'n iawn wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

**Materion eraill a godwyd**

- Nodwyd nad oes mecanwaith clir wedi'i ddarparu i warchod grwpiau sydd wedi'u hymylu, megis cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, rhag effeithiau cronnus neu arferion allgáu.

- Dylid ystyried cyflwyno safonau gofod cenedlaethol fel dosbarth MA yn Lloegr (dosbarth MA Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, fel yn Lloegr).

**Ymateb y Llywodraeth**

3.10.3 Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn eang hwn. Mae'r adran Ymateb y Llywodraeth i'r cynigion penodol yn nodi ein safbwynt ar lawer o'r materion a godwyd. Ar gyfer yr ymatebion hynny sy'n ymwneud â materion ehangach, bydd y rhain yn cael eu hystyried mewn gwaith a chynigion yn y dyfodol.

## Atodiad A – Rhestr yr ymatebwyr

| Nifer | Enw'r sefydliad | Categori |
|---|---|---|
| 011 | Thermal Earth | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 032 | British Institute of Innkeeping (BII) | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 042 | Cyngor Sir Penfro | Awdurdod cynllunio lleol |
| 046 | Network Rail | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 047 | OFTEC Ltd | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 083 | Yr Awdurdod Glo | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 085 | Cyngor Sir Gâr | Awdurdod cynllunio lleol |
| 088 | Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 089 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 092 | Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 097 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Awdurdod cynllunio lleol |
| 100 | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 104 | Cymdeithas Cerbydau Trydan Cymru | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 105 | Cyngor Sir Fynwy | Awdurdod cynllunio lleol |
| 108 | Energy UK | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 109 | NFU Cymru | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 110 | ChargeUK | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 111 | Gofal a Thrwsio Cymru | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 113 | Tîm Rheoli Llygredd Cyngor Abertawe | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 116 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 121 | Cymdeithas Ddinesig y Fenni a'r Cylch | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 122 | Tai Hanesyddol Cymru | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 123 | Heat Pump Association | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 124 | Comisiwn Dylunio Cymru | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |

| | | |
|---|---|---|
| 126 | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Awdurdod cynllunio lleol |
| 127 | SP Energy Networks | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 128 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Awdurdod cynllunio lleol |
| 130 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Awdurdod cynllunio lleol |
| 131 | Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 132 | Y Swyddfa Reoleiddio Niwclear | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 133 | Cartrefi Cymunedol Cymru | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 134 | Cyngor Sir Ceredigion | Awdurdod cynllunio lleol |
| 136 | Y Sefydliad Tai Siartredig | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 137 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 140 | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 141 | Grŵp Swyddogion Cadwraeth De Cymru | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 142 | Cyngor Gwynedd | Awdurdod cynllunio lleol |
| 143 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Awdurdod cynllunio lleol |
| 146 | Sefydliad Siartredig y Technolegwyr Pensaernïol (CIAT) | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 148 | Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 149 | Heddlu De Cymru | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 151 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Awdurdod cynllunio lleol |
| 153 | Cadw | Asiantaeth Llywodraeth / sector cyhoeddus arall |
| 154 | Cymdeithas Siopau Cyfleustra | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 155 | Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA Cymru) | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 157 | Cyngor Dinas Casnewydd | Awdurdod cynllunio lleol |
| 158 | Cyngor Abertawe | Awdurdod cynllunio lleol |
| 160 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Awdurdod cynllunio lleol |
| 162 | Cyngor Sir Ynys Môn | Awdurdod cynllunio lleol |
| 164 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Awdurdod cynllunio lleol |
| 165 | Hedyn | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 166 | Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |

| | | |
|---|---|---|
| 168 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Awdurdod cynllunio lleol |
| 169 | Crisis | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 172 | ALGAO Cymru (Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol – Cymru) | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 173 | Shelter Cymru | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |
| 175 | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi | Cyrff proffesiynol / grwpiau buddiant |
| 179 | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar | Sector gwirfoddol / grwpiau cymunedol |